

Astudiaeth Cwmpasu a Dichonoldeb ar gyfer Academi Economi Sylfaenol newydd yng Nghymru

Awduron yr Adroddiad



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



**University of
Central Lancashire**
UCLan



**Swansea
University**
Prifysgol
Abertawe

Tabl Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
2. Cyflwyniad	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
2.1 Nodau a Chwmpas yr Astudiaeth	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
2.2 Cyd-destun gweithredu Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus.	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
3. Methodoleg Astudio	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4. Adolygiad Llenyddiaeth	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.1 Cyflwyniad a methodoleg chwilio	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.2 Diffinio'r Economi Sylfaenol	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.3 Datblygu Cyfoeth Cymunedol	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.4 Pwysigrwydd arloesi	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.6 Mabwysiadu adnoddau a dulliau Arloesi	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.7 Ymgysylltu â rhanddeiliaid, Dysgu Gweithredol a Meddwl Dylunio	23
4.8 Rhannu gwybodaeth trwy Gymunedau Ymarfer rhyng-sefydliadol.....	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.9 Rhaglenni ac ymyriadau datblygu ymarferwyr cyfoes	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
4.10 Adroddiadau a Llenyddiaeth Ymarferwyr	26
4.11 Model Preston, esiampl o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol	28
4.11.1 Cyflwyniad	28
4.11.2 Cefndir Model Preston	29
4.11.3 Ymyriadau cynnar a sicrhaodd lwyddiant	30
4.11.4 Y Model Preston Presennol	33
4.11.5 Datblygiadau Model Preston	38
4.11.6 Beth all Cymru ei ddysgu o Fodel Preston	42
4.11.7 Elfennau allweddol Model Preston i'w hystyried	46

5.	<i>Darganfyddiadau'r Prif Ddata</i>	52
5.1	Cyflwyniad	52
5.2	Canfyddiadau arolwg	52
5.2.1	Crynodeb o ganfyddiadau'r Arolwg.....	64
5.3	Canfyddiadau Cyfweiliad	65
5.3.1	Cyflwyniad	65
5.3.2	Fframwaith Datblygu Galluogrwydd yr Economi Sylfaenol.....	65
5.3.3	Data cyfweiliad rhanddeiliaid	68
5.3.4	Data cyfweiliad gweithredwyr (defnyddwyr).....	73
5.3.5	Data cyfweiliad academyddion	76
5.3.6	Crynodeb o ddata cyfweiliadau	80
5.4	Rhaglenni a Ysgogir gan Her	81
5.4.1	Cyflwyniad	81
5.4.2	Cymharu Rhaglenni	82
5.4.3	Ymyriadau a mentrau Economi Sylfaenol.....	84
5.4.4	Crynodeb o'r Rhaglen a Ysgogir gan Her	84
6.	<i>Casgliadau</i>	87
7.	<i>Argymhellion</i>	92
8.	<i>Cyfeiriadau</i>	94
9.	<i>Atodiadau</i>	103
	Atodiad 1: Tîm y Prosiect	103
	Atodiad 2: Cyfweleion	104
	Atodiad 3: Cwestiynau cyfweiliad lled-strwythuredig	107
	Atodiad 4: Holiadur Arolwg	109
	Atodiad 5: Methodoleg Chwilio Adolygiad Llenyddiaeth	120
	Atodiad 6: Cynnwys Fframwaith a Gwerth Cymdeithasol TOMS	121
	Atodiad 7: Model Cydweithredol yr Undeb	122
	Atodiad 8: Rhaglenni dylanwadol nad ydynt yn Economi Sylfaenol	123

Tabl Ffigurau

<i>Ffigur 4.1: Cydrannau'r Triongl Ymyriad Poblogaeth (Ffynhonnell, Sarah James, Cyfarwyddwr Partneriaeth Canol Swydd Gaerhirfryn)</i>	47
<i>Ffigur 4.2: Dyluniad Ecosystem Model Preston (O Manley & Whyman 2021)</i>	50
<i>Ffigur 5.1: Gwybodaeth unigol am weithgareddau'n ymwneud â'r Economi Sylfaenol eich sefydliad eich hun</i>	53
<i>Ffigur 5.2: Dealltwriaeth o'r term Economi Sylfaenol</i>	54
<i>Ffigur 5.3: A yw eich strategaeth sefydliadol yn cyd-fynd ag egwyddorion yr Economi Sylfaenol?</i> 55	
<i>Ffigur 5.4: A oes unrhyw ddogfennau eraill sy'n amlinellu sut y bydd egwyddorion yr Economi Sylfaenol yn cael eu gweithredu yn eich sefydliad?</i>	55
<i>Figure 5.5: A yw'ch sefydliad wedi dechrau gweithredu egwyddorion yr Economi Sylfaenol?</i>	56
<i>Figure 5.6: A yw'ch sefydliad wedi gweithredu egwyddorion yr Economi Sylfaenol mewn unrhyw un o'r mathau canlynol o wasanaethau materol neu wasanaethau darbodus?</i>	56
<i>Ffigur 5.7: A oes gan eich sefydliad gynllun gweithredu yr Economi Sylfaenol?</i> . Error! Bookmark not defined.	
<i>Figure 5.8: A yw eich sefydliad wedi datblygu mesurau neu dargedau'r Economi Sylfaenol?</i>	58
<i>Figure 5.9: Dulliau neu dechnegau a ddefnyddir i ddatblygu dealltwriaeth a gallu yr Economi Sylfaenol yn sefydliad yr ymatebwyr</i>	Error! Bookmark not defined.
<i>Figure 5.10: Graddfeydd effeithiolrwydd y dulliau neu'r technegau a ddefnyddir i ddatblygu galluogrwydd yr Economi Sylfaenol yn sefydliad yr ymatebwyr</i>	60
<i>Ffigur 5.11: A yw'ch sefydliad wedi ymgysylltu ag unrhyw un o'r sefydliadau isod i roi egwyddorion Economi Sylfaenol ar waith?</i>	61
<i>Ffigur 5.12: Polisi caffael y sefydliad</i>	62
<i>Ffigur 5.13: A oes gan eich sefydliad brosesau ar waith i gydymffurfio â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy?</i>	63
<i>Ffigur 5.14: A yw eich sefydliad yn mesur effaith ei raglenni neu brosiectau arloesi?</i>	63

Tabl o Dablau

<i>Tabl 5.1: Fframwaith Datblygu Galluogrwydd Cysyniad/Theori Newydd.....</i>	<i>67</i>
<i>Tabl 5.2: Tabl yn crynhoi data o themâu cyfweld â rhanddeiliaid:.....</i>	<i>70</i>
<i>Tabl 5.3: Tabl yn crynhoi data o themâu cyfweliadau'r gweithredwr.....</i>	<i>75</i>
<i>Tabl 5.4: Crynodeb o Ddata o Themâu Cyfweliad Academaidd.....</i>	<i>77</i>
<i>Tabl 5.5: Crynodeb o'r gymhariaeth o raglenni a ysgogir gan Her.....</i>	<i>83</i>
<i>Tabl 5.6: Ymyriadau a Mentrau Economi Sylfaenol.....</i>	<i>85</i>

1. Crynodeb Gweithredol

Cynhaliodd yr adroddiad hwn 'Astudiaeth Cwmpasu a Dichonoldeb ar gyfer Academi Economi Sylfaenol newydd' yng Nghymru, yn ystod chwarter cyntaf 2022. Buom yn archwilio sut i wella gallu Economi Sylfaenol ymarferwyr gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol a dysgu gwersi gan Fodel enwog Preston. Cynhaliodd yr adroddiad ymchwil sylfaenol ac adolygodd lenyddiaeth academaidd ac ymarferwyr.

Mae pob sector o'r economi yn gweithredu mewn byd Anwadal, Ansicr, Cymhleth, Amwys (VUCA) ac mae siociau o'r tu allan yn debygol o ddigwydd yn amlach. Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi gorfod delio â heriau niferus gan gynnwys COVID-19, rhwymedigaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, targedau Sero Net 2030, diwygiadau lles cymdeithasol a sgil effeithiau Brexit. Mae'r heriau hyn yn fwy amlwg oherwydd pwysau ariannol cynyddol sy'n arwain at 'orfod gwneud mwy gyda llai'. Mae sectorau sylfaenol allweddol yn parhau i fod yn gadarn yn ystod cyfnodau o argyfwng, ac mae'r economi sylfaenol yn cynnig sefydlogrwydd economaidd rhanbarthol.

Mae'r Economi Sylfaenol yng Nghymru yn tyfu ac mae o bwysigrwydd hanfodol i ddatblygiad rhanbarthol. Mae gallu gweithredu Economi Sylfaenol yn heterogenaidd, ac nid yw egwyddorion Economi Sylfaenol yn cael eu deall yn llawn. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r llenyddiaeth eginol a manylion 'beth sy'n gweithio' o ran datblygu gallu Economi Sylfaenol yng Nghymru. Rydym yn cynnig fframwaith Datblygu Gallu Economi Sylfaenol. Hefyd, rydym yn amlinellu'r gwersi o fodel enwog Preston. Daeth ei lwyddiant o ymgysylltu â rhanddeiliaid lluosog i gyd-gynhyrchu ecosystem o lywodraeth leol, asiantaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol ac undebau llafur i roi egwyddorion datblygu cyfoeth cymunedol ar waith. Roedd University of Central Lancashire yn darparu gwybodaeth ac yn hwyluso yn academaidd.

Mae'r adroddiad yn argymhell sefydlu Academi Economi Sylfaenol yng Nghymru i gynorthwyo sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu gallu Economi Sylfaenol. Gallai'r Academi Economi Sylfaenol ddatblygu ystorfa o gynnwys ac ymyriadau a gweithredu fel swyddogaeth sicrhau ansawdd. Hefyd, gallai'r Academi Economi Sylfaenol gyfrannu at ddatblygu ecosystem ranbarthol sy'n cynorthwyo'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gydweithio â llunwyr polisïau i greu a chadw cyfoeth yng Nghymru.

O ran y camau nesaf, rydym yn awgrymu y byddai astudiaeth sy'n mynd ati yn systematig i fapio ac adolygu cynnwys dysgu ac ymyriadau Economi Sylfaenol er mwyn datblygu ystorfa wybodaeth gadarn yn werthfawr. Hefyd, gallai'r astudiaeth nodi bylchau mewn gallu ledled

sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu ymyriadau, ar y cyd â'r sefydliadau hyn. Byddai rhaglen beilot Economi Sylfaenol cymuned ymarfer yn ddefnyddiol i ategu gweithgarwch Economi Sylfaenol.

2. Cyflwyniad

2.1 Nodau a Chwmpas yr Astudiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwaith ymchwil a gwblhawyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, University of Central Lancashire a Phrifysgol Abertawe dros gyfnod o ddeuddeg wythnos yn ystod chwarter cyntaf 2022. Mae gan bob un o'r prifysgolion hyn hanes llwyddiannus o gynllunio, datblygu a darparu ymyriadau effeithiol ar gyfer ymarferwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r adroddiad yn dangos y wybodaeth a'r arbenigedd helaeth sy'n deillio o ddatblygu dulliau Datblygu Cyfoeth Cymunedol, a'r broses o'u rhoi ar waith ym model enwog Preston.

Ceisiodd yr astudiaeth sefydlu fframwaith (model) sy'n amlinellu'r ymyriadau sy'n briodol ar gyfer gwella galluedd Economi Sylfaenol (gwybodaeth a sgiliau) ymarferwyr yng Nghymru, a fyddai'n llywio dichonolrwydd Academi Economi Sylfaenol yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth yn ymgymryd â gwaith ymchwil i bennu'r addysgeg rhaglen sector cyhoeddus seiliedig ar her fwyaf priodol, yn seiliedig ar adolygiadau o ymyriadau Economi Sylfaenol presennol yng Nghymru a ledled y DU. Canolbwyntiwyd yn benodol ar raglen Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol (CEIC) a rhaglenni Infuse.

Dechreuodd y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2022, a chynhaliwyd y gweithgareddau isod ar yr un pryd er mwyn cwblhau'r adroddiad erbyn dechrau mis Ebrill 2022:

- **Gweithgaredd 1:** Adolygiad llenyddiaeth byr i lunio corff o waith sy'n galluogi Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall 'beth sy'n gweithio' o safbwynt rhoi egwyddorion Economi Sylfaenol a Datblygu Cyfoeth Cymunedol ar waith. Hefyd, roedd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo ymarferwyr i gyflwyno Economi Sylfaenol, Datblygu Cyfoeth Cymunedol a chysyniadau newydd tebyg. Roedd yr adroddiad yn ystyried llenyddiaeth academaidd a llwyd. Gweler adran 3 o'r adroddiad hwn am y manylion.
- **Gweithgaredd 2:** Ymchwil cynradd ar ffurf holiadur a anfonwyd at Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, a chyfres o 29 o gyfweiliadau lled-strwythuredig ar gyfer gweithredwyr yr Economi Sylfaenol, rhanddeiliaid ac academyddion. Manylir ar y canfyddiadau yn adran 5.

- **Gweithgaredd 3:** Dadansoddiad o'r broses o weithredu egwyddorion Datblygu Cyfoeth Cymunedol oddi mewn i fodel enwog Preston.

Cwblhawyd y gweithgaredd i ateb dau gwestiwn ymchwil, y cytunwyd arnynt gydag ariannwr yr adroddiad:

- 1) Pa ymyriadau a rhaglenni ffurfiol sy'n briodol ar gyfer gwella galluoedd (gwybodaeth a sgiliau) ymarferwyr sy'n gweithredu ar lefelau gwahanol ac yn cyflawni rolau gwahanol mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- 2) Pa ymyriadau sydd wedi galluogi ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus yn Swydd Gaerhirfryn i roi egwyddorion 'Datblygu Cyfoeth Cymunedol' ar waith yn Preston?

I ateb y cwestiwn cyntaf, bu'r adroddiad yn dadansoddi ymyriadau (rhaglenni, cyrsiau a mentrau) a oedd wedi datblygu gallu ymarferwyr Economi Sylfaenol yng Nghymru, trwy gwblhau dadansoddiad byr o'r llenyddiaeth academaidd a llwyd bresennol (Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Melinau Trafod, Ymgynghorwyr a sefydliadau sydd wedi rhoi'r Economi Sylfaenol ar waith). Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ymyriadau sydd wedi gwella galluoedd Economi Sylfaenol (gwybodaeth a sgiliau) ymarferwyr yng Nghymru ac mae'n awgrymu sut y gellir datblygu cysyniad yr Economi Sylfaenol, ei weithredu a'i gyflwyno.

Er mwyn datblygu a gweithredu egwyddorion Economi Sylfaenol yng Nghymru, bydd angen gwella gallu arloesi neu reoli newid ymarferwyr, felly mae'n debygol y bydd yn rhaid i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus bwysleisio pwysigrwydd arloesi ar bob lefel er mwyn sicrhau bod atebion gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu, eu treialu a'u gweithredu ar gyfer yr Economi Sylfaenol. Felly, mae'r adroddiad yn trafod beth mae ymyriadau llwyddiannus presennol wedi'u gwneud i ddatblygu galluoedd datrys problemau ymarferwyr, a sut maen nhw wedi hybu'r broses o fabwysiadu adnoddau a thechnegau gwella parhaus i helpu i ddatblygu diwylliant mwy arloesol sy'n hwyluso gwaith datblygu atebion gwasanaethau newydd ar gyfer yr Economi Sylfaenol.

I ateb yr ail gwestiwn, mae'r adroddiad yn cynnig dealltwriaeth a manylion ynglŷn â'r hyn y mae ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerhirfryn wedi'i wneud i roi egwyddorion 'Datblygu Cyfoeth Cymunedol' ar waith yn Preston, sy'n gysyniad tebyg i'r Economi Sylfaenol. Mae'r adroddiad yn amlinellu'n fras y mecanweithiau a'r prosesau a fabwysiadwyd oddi mewn i'r model Preston dros y degawd diwethaf er mwyn rhoi egwyddorion Datblygu Cyfoeth Cymunedol ar waith a sut y bu'r awdurdod lleol yn gweithio gyda sefydliadau angor yn ystod y broses weithredu. Hefyd, mae'r adroddiad yn amlinellu'r heriau a wynebwyd wrth roi

egwyddorion Datblygu Cyfoeth Cymunedol ar waith yn y rhanbarth, er mwyn helpu llunwyr polisïau ac ymarferwyr yng Nghymru i ddeall 'beth sy'n gweithio' mewn termau real.

2.2 Cyd-destun gweithredu Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r 21ain ganrif wedi gweld argyfyngau economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol lluosog, gan amlygu'r honiad bod sefydliadau yn gweithredu mewn byd Anwadal, Ansicr, Cymhleth, Amwys (VUCA) (Persis et al. 2021; Khan a Millner, 2020). Mae Adroddiad Newid Hinsawdd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (CU) (2021) yn dangos bod argyfyngau allanol yn sicr o ddigwydd yn y dyfodol oni bai bod y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gwneud newidiadau ymatebol a rhai newidiadau gweithredol a strategol radical. Yn ogystal, mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu 'storm berffaith' yn ddiweddar, gan ddelio â heriau sy'n cynnwys gofynion COVID-19, pwysau ariannol cynyddol yn deillio o'r pandemig a'i effaith ar lif refeniw yn y dyfodol, rhwymedigaethau i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), targedau Sero Net 2030 a sgil-ffeithiau Brexit.

I ychwanegu at yr her sy'n wynebu sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn y DU, nodwyd y canlynol gan un adroddiad diweddar: *"Public sector net borrowing was £62.1 billion last month, the highest level ever recorded and nearly three times higher than the last record of £22 billion in April 2012. Fiscal pressures came from both sides of the government ledger with receipts down 24 per cent and expenditure up 57 per cent on last April"* (The Resolution Foundation, 2020 t.6). Mae'r heriau hyn wedi amlygu'r gofyniad i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus wella eu galluedd arloesi (Arundel et al. 2019), sy'n ymddangos yn hanfodol os ydyn nhw am 'wneud mwy gyda llai' a chyfrannu at ddatblygiad rhanbarthol.

3. Methodoleg Astudio

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull gweithredu cymysg a oedd yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig, arolwg byr â ffocws, ac adolygiad llenyddiaeth. Bu'r astudiaeth yn ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid penodol (a restrir isod) er mwyn sicrhau bod y fframwaith Academi Economi Sylfaenol arfaethedig, a'r ymyriadau sydd wedi'u hargymell, yn diwallu anghenion ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

- Tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru
- Uwch-swyddogion polisi Llywodraeth Cymru
- Uwch-swyddogion polisi Llywodraeth yr Alban
- Uwch reolwyr Awdurdodau Lleol
- Uwch reolwyr y GIG
- Rheolwyr caffael Awdurdodau Lleol Cymru
- Comisiynwyr Gofal Cymdeithasol
- Rheolwyr Cymdeithasau Tai
- Swyddogion Adfywio Economaidd
- Melinau Trafod ac Academyddion Annibynnol

Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn unigolion a sefydliadau a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd eu gwybodaeth am Economi Sylfaenol neu Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol, ac roeddent wedi'u hategu gan unigolion cyswllt tîm astudio. Rhaeadrwyd hyn tuag allan i gynnwys unigolion a argymhellwyd gan bobl a gafodd eu cyfweld. Mae rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Yn ogystal, mae Atodiad 3 yn cynnwys y rhestr o gyfweiliadau ac mae Atodiad 4 yn cynnwys holiadur yr arolwg.

Defnyddiodd yr arolwg ar-lein ddull rhaedru tebyg o ddsbarthu. Cafodd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg ei ddsbarthu gan Lywodraeth Cymru a'r tîm astudio. Fe'i hanfonwyd at unigolion mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus perthnasol trwy rwydweithiau sefydledig, a gofynnwyd iddynt ddsbarthu'r arolwg i unrhyw unigolion cyswllt sydd â diddordeb yn y pwnc. Arweiniodd yr arolwg at hanner cant o ymatebion sylweddol, sef chwedeg un o ymatebwyr, ond dim ond hanner cant o arolygon a gwblhawyd. Agorodd yr arolwg ar 15 Chwefror 2022 ac fe gaeodd ar 9 Mawrth 2022. Cyflwynir dadansoddiad o'r arolwg a'r cyfweiliadau lled-strwythuredig yn Adran 5, Canfyddiadau.

4. Adolygiad Llenyddiaeth

4.1 Cyflwyniad a methodoleg chwilio

Cwblhawyd yr adolygiad llenyddiaeth ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2022, gyda'r nodau canlynol:

- Archwilio sut i wella gallu (gwybodaeth a sgiliau) ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu prosesau ac arferion sy'n rhoi egwyddorion Economi Sylfaenol / Datblygu Cyfoeth Cymunedol ar waith, mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gaffael blaengar ac arloesi ym maes prosesau.
- Archwilio effeithiolrwydd rhaglenni'r sector cyhoeddus sy'n cael eu harwain gan her yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r byd academiaidd, fel y Rhaglen Cymunedau Arloesi Economi Cylchol, Rhaglen Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol (Infuse) a rhaglenni tebyg.
- Archwilio effeithiolrwydd modelau/rhaglenni'r sector cyhoeddus sy'n cael eu harwain gan her yn y DU ar gyfer gwella galluoedd Economi Sylfaenol a Datblygu Cyfoeth Cymunedol.
- Archwilio profiad Swydd Gaerhirfryn a'r Model Preston wrth roi'r broses Datblygu Cyfoeth Cymunedol ar waith.
- Archwilio ymyriadau presennol sydd wedi cyflwyno Economi Sylfaenol a Datblygu Cyfoeth Cymunedol mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Casglwyd y llenyddiaeth a adolygwyd trwy chwiliadau o Gasgliad Busnes ProQuest, Business Source Complete, Google Scholar a Google. Yn ogystal, roeddem yn gallu manteisio ar wybodaeth yr academyddion a'r rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r astudiaeth. Oherwydd y cwmpas a'r amserlen gyfyngedig, bu'r adroddiad ond yn chwilio am gyhoeddiadau a oedd yn cynnwys y term "foundational economy", "community wealth building" a "social value". Mae'r fethodoleg chwilio i ddod o hyd i erthyglau ac adroddiadau academiaidd ac ymarferwyr wedi'i nodi yn Atodiad 5.

4.2 Diffinio'r Economi Sylfaenol

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio'r Economi Sylfaenol fel hyn:

“Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch yn yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt a'r rhai sy'n ein cadw ni'n ddiogel, yn gadarn ac yn waraidd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol.

Mae'r diwydiannau a'r cwmnïau sydd yno'n bodoli oherwydd bod pobl yno. Y bwyd rydym ni'n ei fwyta, y cartrefi rydym ni'n byw ynddynt, yr ynni rydym ni'n ei ddefnyddio a'r gofal rydym ni'n ei dderbyn.

Nid rhan fechan o economi Cymru yw hyn, ac mae amcangyfrifon yn awgrymu ei bod yn gyfrifol am bedair o bob deg swydd ac am £1 o bob tair rydyn ni'n eu gwario. Mewn rhai rhannau o Gymru, yr 'economi sylfaenol' hon yw'r economi.”

Mae llawer o economi'r DU yn cynnwys gwasanaethau bob dydd sy'n ceisio diwallu anghenion cartrefi a busnesau bach (Berry, Bailey a Jones, 2020). Nodir bod y gwasanaethau hyn yn rhai sylfaenol, nid yn unig o safbwynt cyflogaeth, ond oherwydd eu bod yn cefnogi'r seilwaith perthnasol cyffredinol a'r gwasanaethau sy'n allweddol i fywyd bob dydd, gan alluogi aelwydydd a sefydliadau i weithredu (Morgan, 2020). Mae'r economi sylfaenol yn dibynnu ar ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau allweddol, tra bod cyflogaeth yn yr economi sylfaenol yn gyfrifol am 30-40% o gyfanswm cyflogaeth (Foundational Economy Collective, 2018). Mae nodweddion allweddol yr economi sylfaenol yn sbarduno newid mewn polisi a syniadaeth economaidd, gan fod y dull presennol o ddatblygu economaidd yn methu â chyflawni mesurau economaidd a lles (Nygaard a Hansen, 2021).

Mae cysylltiad annatod rhwng yr economi sylfaenol a lles, gan fod nwyddau a gwasanaethau yn hanfodol i lawer o ddefnyddwyr (Calafati et al., 2019). Felly, pan fydd y diwydiannau sylfaenol hyn yn wynebu aflonyddwch posibl, mae'r goblygiadau ar gyfer cymdeithas ehangach yn arwyddocaol (Berry, Bailey a Jones, 2020). Fodd bynnag, mae Miller (2017) yn dadlau bod rhai sectorau sylfaenol yn cael eu gwarchod i raddau mwy nag eraill (seilwaith, cyfleustodau, iechyd, addysg) oherwydd eu natur leol gynhenid. Nid ydynt yn wynebu cystadleuaeth ryngwladol, ac nid yw'r galw am wasanaethau hanfodol yn newid yn sylweddol pan fydd prisiau neu incwm defnyddwyr yn newid, gan arwain at lefelau uwch o wytnwch wrth wynebu argyfyngau economaidd allanol o'i gymharu â sectorau eraill.

Mae'r gwaith o ddarparu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol yn cael ei wneud gan unigolion a ddisgrifiwyd fel 'gweithwyr allweddol' drwy gydol pandemig Covid-19, ac mae canlyniadau tarfu ar y broses o ddarparu gwasanaethau o'r fath wedi'u dangos yn ystod y cyfnod hwn. Gellid dadlau y byddai economi'r DU, a'r sector cyhoeddus, wedi bod mewn sefyllfa well i

baratoi ar gyfer her y pandemig pe na bai polisiâu llymder a fersiynau neo-ryddfrydol o leoliaeth wedi'u rhoi ar waith cyn y pandemig (Froud, Johal a Williams, 2020b). Mae dealltwriaeth ehangach o'r economi sylfaenol yn hanfodol wrth ystyried adferiad mwy cynhwysol o'r pandemig. Dyma'r amser i'r economi sylfaenol ddod yn rhan fwy prif ffrwd o bolisi ac arferion Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ystyried yr angen gwirioneddol i fynd i'r afael â'r datgysylltiad cymdeithasol a amlygir gan y paradocs bod gweithwyr (allweddol) statws isel yn ganolog i sicrhau diogelwch cymdeithas (Morgan, 2021).

Er mwyn datblygu'r economi sylfaenol, mae ymchwilwyr wedi dadlau bod angen ail-fframio'r economi mewn ffordd radical, yn bennaf er mwyn gwella atebolrwydd am ddarparu nwyddau a gwasanaethau (Miller, 2017). I gyflawni hyn yng Nghymru, mae angen newid y ffocws o ddull gweithredu 'sectorau allweddol' tuag at ddull gweithredu mwy cyfannol sy'n ceisio gwella dealltwriaeth o'r deinameg oddi mewn ac ar draws sectorau, gan gynnwys ymddygiad 'sefydliadau angor' penodol neu 'gwmnïau sydd wedi'u gwreiddio' ynddynt (Miller, 2017).

4.3 Datblygu Cyfoeth Cymunedol

Mae'r Economi Sylfaenol yn debyg i'r cysyniad o 'Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol'. I ddechrau, roedd y model cadw cyfoeth lleol hwn yn canolbwyntio ar sefydliadau angor. Mae 'sefydliad angor' yn cael ei ddisgrifio fel sefydliad lleol o bwys sy'n cael ei 'angori' yn ei le o fewn rhanbarth (h.y. ysbytai, awdurdodau lleol, SAB a SAU, ysgolion, trafniadaeth a chyfleustodau). Mae sefydliadau angor yn gyflogwyr rhanbarthol mawr, prynwyr nwyddau a gwasanaethau, a pherchnogion eiddo ac asedau. Felly, yn yr un modd â'r 'sefydliadau angor' neu'r 'cwmnïau sydd wedi'u gwreiddio' sy'n cael eu disgrifio yng nghysyniad yr economi sylfaenol, mae'n bwysig iawn nodi a dadansoddi gwerth y sefydliadau angor hyn sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, yn cysylltu â thrigolion lleol, yn buddsoddi yng ngwybodaeth a sgiliau pobl leol ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o 'le' (Brett, 2020).

Dyma rai o nodweddion allweddol datblygu cyfoeth cymunedol:

- mewnnoli nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus.
- datblygu cwmnïau cydweithredol a mentrau sy'n eiddo i'r gymuned leol neu sy'n canolbwyntio ar faterion cymdeithasol yn yr economi gyhoeddus a phreifat.
- symud yr arian sydd ym mhensiynau awdurdodau lleol oddi wrth farchnadoedd byd-eang a thuag at gynlluniau lleol a banciau ac undebau credyd sy'n eiddo i'r gymuned.

- gweithio oddi mewn i sefydliadau angor mawr a'u hadrannau adnoddau dynol i dalu'r cyflog byw a sbarduno proses recriwtio gweithlu o ardaloedd incwm is, gan ddatblygu llwybrau cynnydd diogel i weithwyr a sicrhau cydnabyddiaeth i undebau.
- datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
- ystyried gwerth cyhoeddus lleol o safbwynt perchnogaeth, rheolaeth a datblygiad asedau sy'n cael eu cadw gan sefydliadau angor.

(Heslop et al., 2019)

Mae'r model Preston yn enghraifft o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol, ac mae'n cael ei ddisgrifio yn fanwl isod. Gellir ystyried trwyddedu cymdeithasol yn fenter debyg hefyd. Dan y drefn hon, gosodir rhwymedigaethau cymunedol penodol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat (Leaver a Williams, 2014). Mae datblygu cyfoeth cymunedol wedi dod yn rhan o strategaeth economi sylfaenol Cymru, ac mae'r broses yn cael ei rhoi ar waith yn araf ledled holl awdurdodau lleol Cymru (Eder, 2021). Mae dull yr economi sylfaenol wedi'i ddisgrifio fel model blaengar o arloesi cymdeithasol, sy'n cynnig goblygiadau pwysig ar gyfer dull arloesi seiliedig ar le (Coenen a Morgan, 2021). Mae McInroy (2018) yn dadlau y dylai'r broses o gaffael nwyddau a gwasanaethau fod yn fwy lleol yn y sector cyhoeddus. Mae arloesi cymdeithasol yn seiliedig ar ddatblygu economi well ac ar fuddsoddi mewn cymunedau lleol - fel y gwelir mewn datblygu cyfoeth cymunedol. Gellir cyflawni hyn yn y pen draw trwy flaenoriaethu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Awgrymodd Coenen a Morgan (2021) na fyddai modd gwneud hyn yn ymarferol oni bai bod gwybodaeth a sgiliau priodol yn cael eu datblygu trwy ymyriadau ategol a rhaglenni datblygiadol penodol.

4.4 Pwysigrwydd arloesi

Er gwaethaf gwahaniaethau rhwng arferion y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae prosesau arloesi yn y sector cyhoeddus yn parhau i gael eu hystyried ar sail fframweithiau'r sector preifat (Bugge a Bloch, 2016). Er bod tebygrwydd biwrocraidd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae diffyg cystadleuaeth a chymhellion elw yn y sector cyhoeddus yn arwain at gymhellion arloesi gwahanol (Demircioglu ac Audrestch, 2017). Mae arloesi yn y sector cyhoeddus yn digwydd ar sail 'ad-hoc' yn aml, megis mewn ymateb i newid rheoleiddiol, cyllidebau llai, neu oherwydd y galw am wasanaethau newydd (Arundel, Bloch a Ferguson 2019).

Fodd bynnag, dylai arloesi fod yn seiliedig ar strategaeth barhaus sy'n cynyddu galluoedd sefydliadol i gynyddu allbynnau arloesol (Arundel, Bloch a Ferguson, 2019). Mae arloesi cydweithredol yn cynnig dull amgen o arloesi sy'n berthnasol iawn i'r sector cyhoeddus (Torfing, 2018). Mae strategaethau cydweithredol yn hwyluso'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth rhwng sefydliadau perthnasol, gan hyrwyddo dysgu cydfuddiannol i wella dealltwriaeth o heriau ac atebion posibl (Torfing, 2018), ac mae cydweithrediad yn ymwneud â rheoli gwahaniaethau i ddarganfod atebion ar y cyd i broblemau cyffredin (Gray, 1989). Serch hynny, fel y mae Torfing (2018) yn honni, mae arloesi cydweithredol yn seiliedig ar densiwn cynhenid rhwng cydweithredu ac arloesi. Er bod cydweithredu yn gofyn am rywfaint o debygrwydd rhwng yr unigolion/sefydliadau, mae arloesi yn ffynnu ym mhresenoldeb amrywiaeth a syniadau a champau gweithredu sy'n tarfu, gan ysgogi prosesau cyfnewid gwybodaeth a datrys problemau creadigol (Syed, 2019). Felly, mae arloesi cydweithredol yn seiliedig ar - *'the willingness and capacity of a diverse group of actors to engage in a trust-based dialogue through which they can construct a common ground for exploiting their differences in order to produce innovative solutions'* (Torfing, 2018, t.5).

Mae datblygiad economaidd yn cael ei hyrwyddo drwy entrepreneuriaeth, arloesi a buddsoddi mewn nwyddau a gwasanaethau newydd (Birch et al., 2010; Coenen et al., 2015). Yn aml, mae sectorau'r economi sylfaenol yn defnyddio technoleg ar lefel uwch, gan greu cyd-ddibyniaeth ddeinamig rhwng sectorau sy'n creu technoleg sy'n gysylltiedig ag arloesi gan amlaf, a sectorau'r economi sylfaenol sy'n defnyddio technoleg, sy'n dibynnu llawer mwy ar arloesi cymdeithasol (Morgan, 2021). Er mwyn hyrwyddo'r economi sylfaenol, mae Morgan (2021) yn awgrymu bod angen prosesau arloesi cymdeithasol sy'n seiliedig ar ddau ragofyniad. Yn gyntaf, bod dinasyddion a defnyddwyr yn parhau i weld a gwerthfawrogi gweithgarwch sydd â gwerth cymdeithasol ac, yn ail, bod awdurdodau cenedlaethol a chydwladol yn cydweithio â dinasoedd a rhanbarthau mewn ysbryd o gyd-gynhyrchu yn hytrach na dulliau arweinyddiaeth o'r brig i lawr.

Mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol am ddarparu llawer o wasanaethau sy'n creu gwerth cymdeithasol ac economaidd, ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau cymdeithasol mawr (Foray et al., 2012). Gan fod arian cyhoeddus yn y fantol, mae'n anodd derbyn methiant (Coenen, 2018). Mae astudiaethau wedi dadlau bod angen derbyn methiant i raddau mwy gan fod arloesi llwyddiannus yn ailadroddol ei natur. Felly, dylai'r nod ganolbwytio ar leihau cost camgymeriadau trwy ddysgu'r gwersi a 'methu'n gynt' (Rodrik, 2004). Awgrymodd Coenen a Morgan (2021) y dylai'r sector cyhoeddus neilltuo adnoddau i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio, ble, a pham:

'Experimentation allows for a more direct engagement with the challenge-driven ambitions targeting wicked problems as laid out in contemporary innovation policy thinking... it suggests that prioritization for development and innovation is based on principles of empowered deliberative democracy. This means focusing on specific, tangible local problems highlighted by the foundational economy, such as drought, ageing societies or economic hardship due to the disappearance of local industries and involvement of 'ordinary people' affected by these problems as well as problem-solvers, and an emphasis on deliberative development of solutions to these problems.'

Mae'r math hwn o arloesi cymdeithasol yn bwysig ar gyfer datblygiad rhanbarthol hefyd, gan ei fod yn creu cyfleoedd busnes newydd, yn cynnig safbwyntiau newydd i ddinasyddion, ac yn helpu i foderneiddio'r sector cyhoeddus (Foray et al. 2012, t.112). Mewn perthynas â'r dull hwn sy'n seiliedig ar le, mae mentrau sylfaenol yn seiliedig ar anghenion uniongyrchol cymdeithas, sy'n gofyn am alluoedd arloesol sy'n gallu datrys problemau (Coenen a Morgan, 2021). Mae'r dull hwn wedi profi'n llwyddiannus wrth gael ei fabwysiadu gan sefydliadau yng Nghymru sy'n rhoi mentrau economi sylfaenol ar waith, fel Coastal Housing, sy'n sefydliad angor ac mewn sefyllfa dda i gefnogi'r economi sylfaenol. Mae Coastal Housing yn cymhwysu meddylfryd system gyfan wrth edrych y tu hwnt i ffiniau sefydliadol er mwyn datrys 'problemau sy'n anodd eu datrys', megis trwy ddefnyddio datblygiad cymunedol sy'n seiliedig ar asedau i ymateb i heriau wrth greu gwelliant cymdeithasol a datblygiad economaidd (Green, 2019).

Cyflwynodd Keith Grint (2005) y term 'problemau sy'n anodd eu datrys' i ddisgrifio problemau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, fel sut rydym yn gwella'r GIG a gwasanaethau gofal, gan ddadlau nad oes un ateb unigol (arfer gorau) i broblemau sy'n anodd eu datrys, ac awgrymu bod angen dull arbrofol ac ymarferol (profi a dysgu) lle mae methiant yn cael ei ystyried yn gyfle i ddysgu er mwyn datblygu atebion lluosog ac ailadroddus i broblemau sy'n anodd eu datrys (Grint, 2022). Dadleuodd Grint (2005) fod pedwar prif rwystr i gyflwyno arloesi sefydliadol yn llwyddiannus. Yn gyntaf, oni bai bod pob gweithiwr yn ymrwymo i'r rhaglenni hyn, maen nhw'n debygol o fethu gan fod angen iddynt ymrwymo i weithredu a gwreiddio'r newidiadau. Yn ail, mae egwyddor ansicrwydd Heisenberg yn awgrymu na ellir mesur parau o briodweddau yn gywir ar yr un pryd, sy'n awgrymu bod sefydliadau'n gallu datblygu ymyriadau a phrosesau sy'n anghyson â'i gilydd ac yn drysu ymarferwyr. Mae'r trydydd rheswm dros fethiant arloesi yn cael ei ddangos gan drosiad buddsoddi pyramid Sartre, sy'n awgrymu bod gweithwyr yn gallu credu mai dim ond rhai pobl sy'n gallu elwa o arloesi sefydliadol. Felly, gall gweithwyr amau mai nod rhaglenni newid yw lleihau nifer y bobl, ac felly mae rhywfaint o wrthwynebiad yn debygol. Pedwaredd her rhaglenni newid yw eu hymlyniad at systemau mesur a'r fiwrocratiaeth sy'n gallu deillio ohonynt. Yn y senario hon, mae

sefydliadau'n datblygu ffyrdd effeithlon o fesur allbwn gwasanaeth ac yn anghofio am beth mae cwsmeriaid ei eisiau neu am y broblem roedd y cam arloesol yn ceisio mynd i'r afael â hi.

Mae'r llenyddiaeth gyfoes ar arloesi sefydliadol yn dadlau bod datblygu gallu a chapasiti arloesi yn y sector cyhoeddus yn her wirioneddol gan fod y broses o drosglwyddo gwybodaeth yn anodd ac yn cael ei chydabod gan lunwyr polisi (ESRC, 2017). Mynegwyd yr her trosglwyddo gwybodaeth, a amlygwyd gan adroddiad ESRC (2017), gan Pfeffer a Sutton (1999) yn eu herthygl arloesol '*Knowing Doing Gap*'. Awgrymodd Pfeffer a Sutton (1999) fod rheolwyr ac arweinwyr sefydliadol yn gallu deall damcaniaethau a chysyniadau newydd yn aml, er ei bod yn anodd i ymarferwyr bontio'r 'bwllch' rhwng gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth i brosesau ac arferion newydd.

4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig math o arloesi cymdeithasol sy'n gosod dyletswydd statudol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Morgan, 2019). Mae cyflenwi gwasanaethau'r economi sylfaenol yn hanfodol ar gyfer gwella llesiant, trwy gynyddu safonau byw a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol (Heslop et al., 2019). Hefyd, gall creu economi fwy sylfaenol arwain at liniaru newid yn yr hinsawdd a gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Calafati et al., 2019). Mae Cymru wedi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gosod rhwymedigaeth statudol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy roi datblygiad cynaliadwy wrth galon y broses o wneud penderfyniadau (Green, 2019) a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, darparu seilwaith priodol, a hyrwyddo cyflogaeth deg (Reynolds, Henderson, Xu, a Norris, 2021).

Mae'r economi sylfaenol yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant cenedlaethau'r dyfodol fel bod modd diwygio systemau sylfaenol ar sail amrywiaeth o arbrofion a dulliau arloesol newydd (Calafati et al., 2021). Mae'r nodau datblygu cynaliadwy wedi cael eu beirniadu am dargedu adnoddau materol, gan hepgor mesurau cymdeithasol o lesiant Bärnthaler, Novy, a Plank, 2021). Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwestiynu i ba raddau y mae datblygiad economaidd Cymru yn cyd-fynd â'r nodau llesiant (Bärnthaler, Novy, a Plank, 2021). Felly, mae datblygu economi sylfaenol yn cynnig cyfle i gysylltu llesiant a newid yn yr hinsawdd, gan agor llwybr pontio i newid diwylliant defnydd (Calafati et al., 2019). Mae'r economi sylfaenol yn gyfle i hyrwyddo adfywio economaidd trwy gysoni blaenoriaethau

cymdeithasol ac anghenion cyffredinol, a thrwy gydnabod amrywiaeth ac anghyfartaledd mewn llesiant (Bärnthaler, Novy, a Plank, 2021).

4.6 Mabwysiadu adnoddau a dulliau Arloesi

O safbwynt nodi fframwaith ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol i ddatblygu'r economi sylfaenol yng Nghymru, mae argymhellion adroddiad CLES (2019) yn cynnig arweiniad ar gyfer gwerthuso, yn yr un modd â rhai o 'naratifau' prosiectau peilot Cronfa Economi Sylfaenol Cymru. Cynigir cymysgedd penodol o ffactorau ymyriad posib i'w hystyried.

Mae'r ffactorau ymyriad hyn yn seiliedig ar ddull arweinyddiaeth a newid sy'n rhan annatod o syniadaeth systemau, ac maent yn dilyn egwyddorion allweddol theori cymhlethdod (Cameron a Green, 2020). Mae'r dull hwn yn cydnabod nad yw sefydliadau'n gweithredu fel peiriannau. Yn hytrach, maent yn atgynhyrchu eu hunain yn gyson trwy waith perthynol, deialog fewnol ac allanol gyson, arweinyddiaeth a dilyniant deinamig, cyfathrebu effeithiol, adrodd straeon a gwerthu straeon. Yn y bôn, mae hyn yn meithrin hunandrefnu, ac yn hyrwyddo arloesedd aflonyddgar (Syed, 2019), ymddangosiad trefniadol a thwf. Mae'n bwydo oddi ar y cysylltiadau pŵer cadarnhaol a'r dulliau adborth y tu mewn i'r sefydliad, ac, yn baradocsaid, yn caniatáu i arweinwyr ddatblygu hyblygrwydd strategol ar yr un pryd ag 'ildio' arweinyddiaeth i arweinwyr uwch a chanol allweddol sydd agosaf at brosesau sefydliadol allweddol ac arloesi posibl (McMillan, 2008). Mae'r mewnwelediadau byr hyn i wyddor rheoli cymhlethdod yn herio arweinwyr sefydliadau yn economi sylfaenol Cymru i gofleidio heriau ac ansicrwydd cyfoes er mwyn bod yn fwy effeithiol, democrataidd a chynaliadwy.

Mae arweinyddiaeth ymyriad a gweithredu newid yn hanfodol ar gyfer holl randdeiliaid yr economi sylfaenol (Sefydliad Materion Cymreig, 2022). Dylai ddechrau trwy ddatblygu sefydliad cadarn sy'n seiliedig ar werthoedd ac yn angerddol dros ei waith. Mae hyn yn sbarduno cysylltedd, gan ganolbwyntio ar hanfodion strategol pwysig mewn prosesau sefydliadol allweddol. Yn ogystal, dylai arweinwyr sefydliadol yr economi sylfaenol hyrwyddo'r broses o greu timau/unedau hunan-drefnu sy'n sbarduno arloesedd ac yn datblygu arweinyddiaeth sy'n atgyrchol ac yn hwyluso proses o 'ildio' a grymuso arweinwyr canol (Flinn, 2018). Yn gysylltiedig â hyn, mae manteisio ar 'le agored' a thechnolegau digidol yn galluogi rhwydweithio pwerus ac yn ysgogi Cymunedau Ymarfer y tu mewn a'r tu allan i sefydliadau'r economi sylfaenol (Cameron a Green, 2020). Yn olaf, bydd arweinyddiaeth sy'n edrych tua'r dyfodol yn cynnig prosesau synhwyro, presenoli a gwireddu cyfleoedd twf sefydliadol, nodwedd sy'n dod i'r amlwg sy'n hyrwyddo dull rheoli 'croesawu' (Scharmer, 2007).

O safbwynt datblygu sefydliadau'r economi sylfaenol newydd, mae angen i ymyriad 'sefydlu' (busnesau newydd) ganolbwyntio ar sawl ffactor allweddol. Credir bod dadansoddiad ystadegol economaidd, cyfweiliadau agored ac arolygon o 'fusnesau lleol sy'n seiliedig ar leoedd' yn ddulliau ymyriad ymchwil 'hysbysu ymlaen llaw' hanfodol sy'n helpu i fodlu ymyriad a'i gwneud yn hawdd trosglwyddo i unrhyw dref wledig yng Nghymru neu unrhyw brosiect economi sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y gymuned (Hafren Gwy, 2021). Ar gyfer arweinwyr angor Cymunedol a phartneriaethau busnes lleol, dylai datblygu gwelededd a hygyrchedd busnesau cymunedol economi sylfaenol newydd mewn sefydliadau angor lleol a rhanbarthol fod yn strategaeth ymyriad â blaenoriaeth (Sefydliad Materion Cymreig, 2022). Bydd y broses o gynyddu cydweithio, partneriaeth a datblygu consortia rhwng busnesau cymunedol newydd yn darparu graddfa gweithredu ddeniadol. Ymyriad 'sefydlu' hanfodol arall yw datblygu proses trosglwyddo asedau at ddibenion angori, a chonsortia busnes cymunedol i wella problemau amwynderau cyhoeddus lleol a chreu 'stiwardiaeth lle' a datrysiadau democrataidd (Colegau Cymru, 2020). Yn ogystal, credir bod defnyddio gwariant lleol a mabwysiadu dull datblygu cyfoeth lleol gan sefydliadau angor er mwyn gwreiddio gwerth cymdeithasol yn ymyriad pwysig sy'n rhoi cynlluniau ar waith (Sefydliad Materion Cymreig, 2022; Colegau Cymru, 2020).

Unwaith y bydd prosiect sefydliad economi sylfaenol newydd wedi 'dechrau' yn llwyddiannus, mae gwella mesurau effaith sy'n helpu i 'werthu' busnesau cymunedol a darparu cymorth busnes yn swyddogaethau hanfodol ar gyfer sefydliadau angor allweddol fel Colegau AB lleol a phrifysgolion galwedigaethol rhanbarthol (Colegau Cymru, 2020). Hefyd, mae angen i holl randdeiliaid yr economi sylfaenol sydd â buddiant ddefnyddio eu 'llais cymunedol' mewn polisi strategol datblygu economaidd a gwybodaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol. Galwodd papur gwyn Amey consulting (2021) ar *Creating Cohesive Communities* am fwy o weithio hybrid a gwella mynediad at rannu manau gwaith mewn hybiau busnes lleol. Byddai'r rhain yn dod yn fannau cymunedol hanfodol lle byddai modd cyrchu cymorth busnes, mentora a hyfforddiant a helpu i hyrwyddo manteision 'lleoliaeth.' Mae clywed y naratif rhanbarthol a lleol cadarn hwn ar gyfer yr economi sylfaenol mewn agweddau ar bolisi ac ymarfer yn hanfodol, ac mae'n ymddangos bod creu cymuned ymarfer gorau o gwmpas busnesau cymunedol a'r economi sylfaenol yng Nghymru yn ymyriad 'cam nesaf' naturiol.

Mae adroddiad yr ONS (2021) ar *Understanding Towns* yn galw am 'gymuned newydd, wedi'i rhwydweithio' ar gyfer economi sylfaenol gyfoes, sy'n cynnig gweithgareddau gwerth uchel, masnach uchel fel gweithgynhyrchu uwch, technoleg ddigidol, gwasanaethau marchnad gwybodaeth-ddwys a gwasanaethau gwybodaeth-ddwys eraill. Mae Lang (2019) yn pwysleisio bod angen gwaith ymchwil craff ar 'le dwfn' ac yng nghyd-destun sector

'gwasanaethau hanfodol' arloesol. Yn gysylltiedig â'r thema hon, mae Froud et al. (2020) yn cwestiynu a yw 'cynhyrchiant' yn bwysig yn nabl polisi economi sylfaenol Cymru, gan ddadlau o blaid mwy o syniadau dyfeisgar ac ymyriadau ymarferol yn ymwneud â natur gwerth cymdeithasol wrth ddatblygu gwasanaethau hanfodol lleol. Mae Watkins (Sefydliad Materion Cymreig, 2022) yn credu bod yna botensial i ystyried Colegau AB a SAU galwedigaethol lleol yng Nghymru fel 'sefydliadau angor cynhyrchiol' y 21ain ganrif ar gyfer yr economi sefydliadol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu micro-hanfodion (World Economic Forum/Boston Consulting Group, 2015). Mae micro-hanfodion yn alluoedd cyfoes ar gyfer datrys problemau, creadigrwydd, arloesi a chydweithio a dylent fod yn waith blaenoriaeth grŵp o ymarferwyr Cymru/DU, academyddion ac arbenigwyr adnoddau dynol strategol.

Byddai ymyriad o'r fath yn datblygu dysgu a hyfforddiant seiliedig ar waith 'parhaus' (Colegau Cymru, 2020). Hefyd, gallai helpu i sefydlu gweithredu cymunedol 'o'r gwaelod i fyny' a hyrwyddo busnesau hunangynhaliol, creu pwynt gwerth unigryw ar gyfer economi wybodaeth leol a gweithredu fel llwyfan ar gyfer newid sy'n arwain at fanteision uniongyrchol i'r boblogaeth leol. Mae hyn yn pwysleisio ymgysylltu â'r ardal leol ac yn sbarduno'r ffactor 'perchnogaeth leol' (Sefydliad Bevan, 2020). Mae themâu ymyriad eraill ar gyfer sefydliadau economi sylfaenol sefydledig a newydd yn cynnwys datblygu sesiynau rhanddeiliaid rheolaidd a sesiynau 'bwrdd crwn' agored sy'n rhannu ac yn meithrin dealltwriaeth o 'arferion gorau' ac yn nodi materion recriwtio a chadw cyffredin (Amey consulting, 2021). Yn yr un modd, mae cynnal sgysiau myfyriol rheolaidd gyda darparwyr BBaCh a chofnodi'r 'naratifau' trwy fideos astudiaeth achos ar-lein yn datblygu ymyriadau dysgu ffurfiannol pwerus (Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol, 2019).

Manteisiodd nifer o brosiectau Her Economi Sylfaenol Cymru ar y cyfle i ffurfio partneriaeth â cholegau AB ac AU lleol i greu rhaglenni addysg wyneb yn wyneb ac ar-lein unigryw er mwyn addysgu eu cymunedau a'u defnyddwyr am wybodaeth a sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â chynnyrch roeddent yn eu gwerthu a llwybrau newydd i dwf busnes (Prosiect Her Economi Sylfaenol Pysgod Cregyn Môn, 2020; Prosiect Her Economi Sylfaenol Neuadd y Farchnad Rhuthun, 2020). Nodwyd bod sefydlu sesiynau adborth cynnar gyda sefydliadau'r gadwyn gyflenwi a rhannu canfyddiadau yn ymwneud â gweithredu busnes allweddol yn ymyriad cynhyrchiol gan ei fod yn llunio meddylfryd sefydliadau ac yn llywio gwaith datblygu 'offer cyfnod cynnar' a 'chanllawiau' i gefnogi prosesau gwaith allweddol blaengar fel caffael a rheoli cadwyni cyflenwi (Canolfan Cydweithredol Cymru, 2020).

Yn olaf, nodwyd sawl thema ymyriad cyffredin ar gyfer yr holl randdeiliaid allweddol. Dylai ymyriad pwysig i wireddu polisi gynnwys sefydlu 'termau gwirioneddol' sy'n rhoi eglurder wrth ddiffinio'r economi sylfaenol yng Nghymru – diffiniad sy'n ystyried yr economi sylfaenol fel

ystod o 'wasanaethau hanfodol' nad ydynt yn agored i drafodaeth ac sydd wedi'u gwreiddio yn ein bröydd (Colegau Cymru Tachwedd 2020). Yn gysylltiedig â hyn, mae angen camau gweithredu yn ymwneud â pholisi datblygiadol sy'n golygu nad yw polisi Llywodraeth Cymru yn ystyried y sector economi sylfaenol fel datblygiad economaidd, a'i fod yn trin y sector fel gwasanaethau hanfodol arloesol (Colegau Cymru Tachwedd 2020.)

Un fenter ymyriad uniongyrchol a nodwyd oedd gwella cydweithio a chyd-gynhyrchu ar draws y sector economi sylfaenol trwy gymorth addysg busnes a hyfforddiant penodol (yn enwedig trwy gyfleoedd 'dysgu yn y gwaith' ar gyfer pobl yn eu hardaloedd lleol) er mwyn hwyluso capasiti a gallu gwybodaeth (Canolfan Cydweithredol Cymru, 2020). Byddai hyn yn helpu i gofnodi gwersi cadarnhaol a negyddol yn ymwneud â diwylliant sefydliadol a meithrin capasiti, a rhannu dysgu yn gyflym ac yn eang. Ymyriad blaenoriaeth arall oedd adnewyddu offer ac adnoddau presennol sy'n hysbys i sector yr economi sylfaenol a sicrhau eu bod ar gael yn hwylus, yn enwedig dylunio a darparu 'pecynnau cymorth' yr economi sylfaenol i rannu dysgu, hyrwyddo mwy o gydweithio, meithrin ymgysylltiad digidol a chynyddu 'cysylltedd' perthynol rhwng cleientiaid, contractwyr a chymunedau (y 3C) (Canolfan Gydweithredol Cymru, 2020.) Yn ogystal, byddai sylwi ar gyfleoedd 'ennill yn gyflym' ar gyfer trigolion lleol, fel datblygu cyfleoedd gwaith a mabwysiadu dull hyblyg o recriwtio a hyfforddiant penodol yn ymyriad sy'n hwyluso twf hirdymor yr 'amlen adnoddau' lleol (Canolfan Gydweithredol Cymru, 2020.)

Mae'r posibiliadau hyn ar gyfer ymyriadau yn gofyn am economi arloesi busnes a gwybodaeth gynaliadwy lle dylai dulliau gweithredu sy'n rhoi polisi ar waith ragori. Er enghraifft, gellid hwyluso'r broses o greu cyfleoedd yr economi sylfaenol, cyfleoedd sefydliadol a chyfleoedd swyddi trwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei 'chloi i mewn' yn aml mewn Colegau AB a sefydliadau AU galwedigaethol yng Nghymru (Sefydliad Materion Cymreig, 2022.). Rhaid sicrhau mai un o brif ymyriadau Llywodraeth Cymru yw llenwi'r 'bwllch gweithredu/gwybod-gwneud' trwy weithio ar frys yn y gofod rhwng strategaeth lefel uchel a chyflwyno rhaglenni a chynnig cyfleoedd dysgu cydweithredol sy'n datblygu, ac yn rhannu, gwybodaeth, sgiliau, ac offer penodol 'y genhedlaeth nesaf' a dealltwriaeth gyffredinol o'r economi sylfaenol (Canolfan Gydweithredol Cymru, 2020.)

4.7 Ymgysylltu â rhanddeiliaid, Dysgu Gweithredol a Meddwl Dylunio

Mae angen i atebion polisi gael eu mynegi a'u datblygu'n lleol ar gyfer yr economi sylfaenol (Coenen a Morgan, 2021), sy'n awgrymu nad yw datrysiadau polisi cyffredinol yn debygol o fynd i'r afael â'r sensitifrwydd sy'n seiliedig ar le sy'n gysylltiedig â'r dull sylfaenol. Er mwyn cyflawni hyn, mae Reynolds et al. (2021) yn awgrymu mai dysgu arbrofol ymhlith rhanddeiliaid yw'r dull gorau o gyd-greu atebion sylfaenol sy'n seiliedig ar hynodrwydd sectoraidd.

Mewn perthynas benodol â rôl arloesedd yn yr economi sylfaenol, mae Stilegoe et al. (2013) yn dadlau bod angen rhoi cyfrif am werth rhanddeiliaid a gwerth cyhoeddus er mwyn arloesi mewn ffordd gyfrifol. Wrth gefnu ar 'un dull gweithredu sy'n addas i bawb', mae Dobbins a Plows (2017) yn galw am ddull arbrofi mwy lluosog ei naws yn yr economi sylfaenol ar lefelau rhanbarthol, sector a lleol. Trwy ddefnyddio modelau fel 'Meddwl Dylunio', gellid cynnig fframwaith cefnogol i sefydliadau sector cyhoeddus i'w helpu i lunio eu safbwyntiau sylfaenol, fel y gwelwyd mewn rhaglenni presennol y sector cyhoeddus megis CEIC (Walpole et al. 2022). Mae meddwl dylunio yn ddull effeithiol o gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddatblygu atebion gwasanaeth newydd mewn cydweithrediad â defnyddwyr (Harhoff a Lakhani, 2016).

4.8 Rhannu gwybodaeth trwy Gymunedau Ymarfer rhyng-sefydliadol

Trwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le, gellir defnyddio gwybodaeth leol i ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a strategaethau datblygu rhanbarthol; mae angen meithrin gwasanaethau sylfaenol o'r fath er mwyn sicrhau adferiad ar ôl y pandemig (Morgan, 2021). Byddai targedu adnoddau a hyfforddiant y llywodraeth tuag at y sefydliadau sylfaenol hyn yn cefnogi'r newid i economi sylfaenol, ond mae angen i'r newid hwn fod yn raddol a chefnogi gweithgareddau sylfaenol (Hansen, 2021). Gellir dadlau bod yr economi sylfaenol yn dibynnu ar arloesedd cymdeithasol ac arbrofi clyfar yn y sector cyhoeddus (Morgan, 2021). Mae Dobbins a Plows (2017) yn cynnig arbrofi lluosog ei natur yn yr economi sylfaenol ar lefelau rhanbarthol, sector a lleol. Gellid hwyluso hyn trwy 'bartneriaethau' cydweithredol rhwng y wladwriaeth, cyflogwyr blaenllaw, undebau llafur, a rhanddeiliaid economi sylfaenol eraill.

Mae rhannu gwybodaeth yn elfen hanfodol o ddatblygu Cymunedau Ymarfer. Er mwyn mabwysiadu agwedd adeileddol cymdeithasol at wybodaeth, mae'n rhaid i sefydliadau - sy'n cael eu sbarduno'n bennaf gan eu harweinwyr allweddol - ymgysylltu â'r syniadau sy'n dod o bob rhan o'u strwythurau, trwy ddeialog ffurfiol ac anffurfiol. Yna, mae cyfnewid gwybodaeth a dysgu yn dod yn gymdeithasol ac yn gyfranogol yn ei hanfod. Mae Cymunedau Ymarfer yn

galluogi aelodau o'r gymuned hon (y Gymuned Ymarfer) i ddatblygu sgiliau a galluoedd sy'n berthnasol i'w sefyllfaoedd eu hunain yn eu sefydliadau. Mae hyn yn eu galluogi i geisio datrys problemau a rhannu gwybodaeth (Wenger, 2007). Gall cylchrediad gwybodaeth mewn Cymunedau Ymarfer rhyng-sefydliadol gael effaith fawr ar leoliad y Gymuned Ymarfer sy'n wynebu her gyffredin.

4.9 Rhaglenni ac ymyriadau datblygu ymarferwyr cyfoes

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu galluoedd ymarferwyr. Mae llenyddiaeth bresennol yn dangos gwerth cefnogi arloesi agored yn y sector cyhoeddus (Mergel a DeSouza, 2013), gwerth Cymunedau Ymarfer mewn rhaglenni datblygu ffurfiol (Smith et al. 2018) ac effeithiolrwydd meddwl dylunio wrth ddatblygu atebion gwasanaeth newydd ar y cyd â defnyddwyr (Harhoff a Lakhani, 2016). Fodd bynnag, mae nifer fach iawn o raglenni ffurfiol ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gwella'r galluoedd sydd eu hangen i ddatblygu a chyd-greu atebion i'w heriau.

Nod ymyriadau dysgu cyfoes gyda mathau o addysgeg gyfranogol yw cynorthwyo dulliau dysgu cyfranogol, fel y'u cynigiwyd gan Hodgson a Reynolds (2005) lle mae'r dysgwr yn datblygu'r 'cwrwicwlwm' / dysgu ar y cyd er mwyn cael mwy o effaith ar yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni o safbwynt defnyddio'r dysgu. Mae dull dysgu cydweithredol a chyfranogol o'r fath yn dibynnu ar greu ystyr trwy ddeialog a datblygu gwybodaeth (Hodgson a Watland, 2004). Mae dysgu trawsnewidiol yn ceisio annog dysgwr i gwestiynu rhagdybiaethau sylfaenol ac ailstrwythuro'r ffordd y mae'r dysgwr yn gweld y byd ac yn gweithredu yn y byd (Laros, 2017).

Mae addysg yn gyffredinol yn cael ei rheoli gan agwedd at ddysgu sy'n ystyried gwybodaeth fel rhywbeth i'w chaffael. Mae Freire (1970) yn cyfeirio at hyn fel cysyniad bancio addysg lle mae addysg yn weithred adneuo - myfyrwyr yw'r storffeydd, a'r athro yw'r adneuwyr. Mae'n bwysig nodi mai hon yw'r farn amlycaf oherwydd bod mathau o addysgeg gyfoes yn gwrthsefyll y dull didactig rydym wedi arfer ag ef yn yr ystafell ddosbarth, h.y., yr athro neu'r arbenigwr yn rhoi gwybodaeth i ffynhonnell lai gwybodus (y myfyriwr). Maen nhw'n dibynnu llai ar y tiwtor/tiwtoriaid fel yr "unigolyn doeth ar y llwyfan" ond fel yr "arweinydd ar yr ochr" (Jones a Steeples, 2002). Mae dulliau o'r fath yn cyfyngu dysgu i fath o drosglwyddo gwybodaeth ac yn tueddu i anwybyddu amgylchedd cymdeithasol-ddiwylliannol perthnasol y dysgwr, boed hynny yn yr ysgol neu yn y gweithle. Mae'r agwedd hon at ddysgu yn ystyried gwybodaeth yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu'n gymdeithasol.

Ystyrir bod rhyngweithio cymdeithasol yn chwarae rôl hanfodol yn natblygiad gwybyddiaeth lle mae iaith yn chwarae rhan sylfaenol. Yn nodweddiadol, mae agwedd wybyddol yn ystyried bod y dysgwr yn gallu defnyddio gwybodaeth haniaethol sydd 'allan yno'. Mae damcaniaethau Vygotsky (1978) yn canolbwyntio ar ddysgu gwybyddol trwy ddatblygiad cymdeithasol sy'n digwydd mewn cyd-destunau diwylliannol ac sy'n cael ei gyfryngu gan iaith. O fewn theori gymdeithasol-ddiwylliannol, barn gyson yw bod dysgu'n digwydd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd fel ymarfer yn y gweithle. Mae Rogoff a Lave (1984) yn cynnig bod 'gweithgaredd' yn strwythuro gwybyddiaeth (h.y. mae meddwl wedi'i strwythuro gan weithgareddau y mae rhywun yn cymryd rhan ynddynt) a bod hon yn agwedd sylfaenol ar sut mae sefydliadau'n 'dysgu eu ffordd ymlaen.'

Mae damcaniaethau dysgu cymdeithasol, felly, yn gweld dysgu fel rhywbeth 'wedi'i leoli' neu wedi'i wreiddio o fewn gweithgaredd. Mae dysgu yn deillio o gymryd rhan mewn cymuned ac ennill aelodaeth gydnabyddedig o fewn y gymuned honno (Lave a Wenger, 1991). Arferion gwaith y dysgwr ei hun yw'r gweithgaredd ar gyfer dysgu o'r fath mewn rhaglenni seiliedig ar waith fel arfer, er enghraifft fel rheolwr neu arweinydd. Felly, mae'r profiad dysgu o ganlyniad i raglenni o'r fath wedi'i leoli yn ôl i'w cyd-destunau eu hunain. Mae Hodgson (2009, t.131) yn gwneud y cysylltiad rhwng dysgu cymdeithasol ac addysg reoli gan ddadlau y gellir dehongli dod yn aelod o gymuned fel:

"...learning through participation in the pedagogy and curriculum of a given educational programme. Through this participation 'students' learn how to be a participant or member of a given knowledge community and acquire the language and an identity that is recognised by that community"

Ceir tystiolaeth bod y dulliau hyn yn cael effaith wirioneddol, yn hytrach na damcaniaethol, h.y. mae'r ffocws ar ddysgu cymhwysol trwy ddatblygu datrysiadau yn y gweithle (Lockett a Kerr, 2006). Mae ymyriadau dysgu sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr ac sydd wedi'u hategu gan ddamcaniaethau dysgu cymdeithasol ac addysgeg gyfoes wedi dangos eu bod wedi cael effaith ar yr arfer y mae'r dysgwr wedi'i leoli ynddo, h.y. yn y busnes, mewn cymdeithas, yn y man y mae'r dysgwr yn ceisio gwneud gwahaniaeth iddo (Howorth et al. 2010). Mae damcaniaethau dysgu cymdeithasol a gynigiwyd gan Lave a Wenger (1991) a Wenger (1998) yn ystyried bod dysgu wedi'i leoli neu wedi'i wreiddio o fewn gweithgaredd. Mae dysgu yn deillio o gymryd rhan mewn cymuned ac ennill aelodaeth gydnabyddedig o fewn cymuned. *"Learning, in short, takes place among and through other people."* (Gherardi et al., 1998).

Mae hunaniaeth yn rhan fawr o ddysgu. Mae'r cysylltiad cryf rhwng hunaniaeth y dysgwr fel dysgwr yn gysylltiedig â'r broses o gyfranogiad ymylol cyfreithlon lle mae'r dysgwr yn ennill

aelodaeth lawnach fel dysgwr o'r rhaglen / ymyriad dysgu y mae'r dysgwr wedi'i leoli ynddi. Mae'r hunaniaeth hon wedi'i hadeiladu'n gymdeithasol trwy adeiladu a chylchredeg gwybodaeth trwy ddeialog berthynol. Mae dysgu sut i fod yn ddysgwr yr un mor bwysig â dysgu bod yn arweinydd / rheolwr, sy'n hanfodol wrth yrru cymhwysio economïau sylfaenol. Mae'r ymchwil empirig gyfoes ar ddylunio ymyriadau yn awgrymu bod addysgeg fwy rhyngweithiol, trochi a pherthnasol yn briodol i ymarferwyr ddatblygu galluoedd arloesi ac economi sylfaenol. Bydd yr adroddiad hwn yn awr yn adolygu adroddiadau ymarferwyr sy'n disgrifio'r ffordd y gweithredir egwyddorion yr economi sylfaenol a datblygu cyfoeth cymunedol yng Nghymru.

4.10 Adroddiadau a Llenyddiaeth Ymarferwyr

Yng Nghymru, mae sefydliadau ymarfer a chynghori, yn enwedig y Sefydliad Materion Cymreig (IWA), sefydliadau darpariaeth arloesol fel Coastal Housing Group (CHG) a melinau trafod academaidd fel y Foundational Economy Collective a leolir ym mhrifysgol Manceinion wedi archwilio'r economi sylfaenol drwy brosiectau adolygu sy'n seiliedig ar bolisi a chyflawni. Eu prif nod fu datblygu eglurder meddwl a gweithredu ar gyfer llunwyr polisi a gweithredwyr yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn wedi canolbwyntio ar gymorth busnes, rheoliad a datgarboneiddio, ac yn hanfodol ar y pwerau amrywiol presennol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i gynnal a thyfu'r Economi Sylfaenol.

Fodd bynnag, ychydig o waith ymchwil manwl sy'n bodoli ar sut i gynllunio'n strategol a gweithredu prosiectau newydd a fydd yn creu cyfleoedd newydd cyffrous i fusnesau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r Economi Sylfaenol, yn enwedig microfusnesau yn ninasoedd, trefi bach a grwpiau cymunedol trefol neu wledig lleol yng Nghymru. Mae ymchwil diweddar Economi Sylfaenol ar economi Cymru yn awgrymu bod Cymru'n fwyfwy 'ymyol' i'r prif farchnadoedd economaidd byd-eang a gweithgareddau busnes gwerth uchel sydd wedi'u crynhoi mewn clystyrau gwybodaeth rhanbarthol (e.e., Silicon Valley, Gogledd Carolina) canolfannau ariannol (e.e. Llundain, Singapôr) a chenhedloedd gweithgynhyrchu (e.e. Tsieina, Unol Daleithiau a Japan.). Awgryma Watkins (2022) bod hyn yn gwanhau cydnerthedd llawer o'n gwasanaethau mwyaf hanfodol, megis gofal cymdeithasol, drwy wreiddio'r tymor byr a cyllidoli ac yn tanio pryderon newydd y de gwleidyddol Cymreig am gymuned, cydlyniant a balchder lleol (Sefydliad Materion Cymreig, 2022.). O ganlyniad, mae mwy a mwy o ddiwylliedd cyffredinol a thryloywder gwleidyddol i herio agwedd uniongedd Llywodraeth Cymru o ran sut y gallai busnesau Economi Sylfaenol weithredu a thyfu a sut y dylid cwmpasu ymyriadau dysgu i sicrhau twf o'r fath (Colegau Cymru, 2020.).

Mae gwasanaethau hanfodol economi sylfaenol Cymru o ynni, tai a gofal yn amhosib eu trafod ac wedi'u gwreiddio yn ein hardaloedd. Maent yn cael eu hystyried fwyfwy gan feddylwyr beirniadol a llunwyr polisi arloesol fel sylfaen bosibl 'cymunedau rhwydweithiol' newydd (Colegau Cymru, 2020) ar gyfer economi gyfoes a fyddai'n cynnig twf i'r sector ac yn ysgogi gweithgareddau gwerth uchel, masnachadwy fel gweithgynhyrchu uwch, technoleg ddigidol, gwasanaethau marchnad gwybodaeth-ddwys a gwasanaethau gwybodaeth-ddwys eraill (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021.).

Mae tirwedd dechnolegol newidiol yn y rhan fwyaf o economïau Ewropeaidd datblygedig. Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR, adroddiad yr Alban, 2019) yn nodi, boed yn cael ei ddisgrifio fel y 'pedwerydd chwyldro diwydiannol', awtomatiaeth neu newid technolegol fel sy'n gysylltiedig â thechnolegau digidol newydd fel deallusrwydd artiffisial, 'rhyngwyd o bethau', cadwyn bloc, dadansoddeg data a thechnolegau clyfar newydd i gyd yn dod â thechnoleg i rolau, lefelau sgiliau a rhannau o economi Cymru na chyffyrddwyd â hwy gan donnau blaenorol o newid technolegol.

Er mwyn i'r economi sylfaenol ffynnu yng Nghymru mae angen meddwl cynhyrchiol arloesol, gweithredu a chefnogaeth gynaliadwy gan ei sectorau Addysg Bellach ac Uwch. Gallai cydweithredu a chyd-gynhyrchu o'r fath weld twf busnesau Economi Sylfaenol newydd arloesol a chymorth addysg a hyfforddiant busnes sy'n cryfhau 'gwybodaeth galluogi capasiti a galluogrwydd' Cymru (Colegau Cymru, 2020.). Dylai'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ranbarthol a lleol hon gael eu galluogi a'u 'caniatáu i ffynnu' gan asiantaethau fel Banc Datblygu Cymru ac yn hollbwysig, byddai'r sefydliadau newydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i Gymru drawsnewid tuag at economi sero net <<https://www.iwa.wales/our-work/work/report-turning-rhetoric-into-reality-decarbonising-the-foundational-economy/>> (Sefydliad Materion Cymreig, 2022.).

Yn y bôn, mae 'Model Preston' clodwiw'r DU a 'Model Cleveland' yr UDA, y ddau yn deillio neu'n fersiynau o'r profiad Mondragon sydd wedi hen ennill ei blwyf yng Ngwlad y Basg, yn esiamplau o 'ddal mwy o werth lleol' a defnyddio gwybodaeth ddealledig lleol am gyfleoedd twf busnes, yn enwedig pan gânt eu galluogi a'u creu ar y cyd gan gapasiti a galluoedd llywodraeth lleol a sefydliadau addysgol lleol/rhanbarthol. Mae awdurdodau lleol Cymru eisoes yn darparu cyfleoedd rhwydweithio helaeth drwy berthnasoedd busnes presennol yn eu cymunedau, wedi'u hysgogi'n ddieithriad gan weithgarwch caffael cyhoeddus (Y Sefydliad Materion Cymreig, 2022; Y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol, 2019.). Yn yr un modd, bydd dulliau cydweithredol arloesol gan sefydliadau angori rhanbarthol i gefnogi datblygu cyfoeth cymunedol a rennir a gwella llesiant ar y cyd yn creu economïau lleol a rhanbarthol cryf, cadarn a chynhwysol (menter Ayrshire Anchor Institutions Charter, 2022). Gallai

sefydliadau addysgol fel colegau AB lleol a phrifysgolion galwedigaethol rhanbarthol 'driongli' y meithrin capasiti a'r gallu hwn trwy ddatblygu gwybodaeth a buddsoddi mewn cwmnïau lleol a rhanbarthol gwerth uchel (Colegau Cymru, 2020.). Dylai manteisio i'r eithaf ar leoliaeth a dysgu lleol sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr fod yn gam hanfodol cyntaf i ateb y galwadau parhaus am fwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn y gweithlu yng Nghymru (Amey consulting, 2021; Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol, 2019; Colegau Cymru/Colegau Cymru, 2020.).

Yn amlwg, mae llawer o'r economi sylfaenol yn rhan annatod o economi cyflog isel. Fodd bynnag, mae Froud et al., (2019) yn pwysleisio na ddylid ei gysylltu hyd yn oed â 'ffactorau' effeithlonrwydd a chynhyrchiant, y dylid ei alinio â'r cysyniad cyfannol o 'fywiogrwydd' ac ar ddarpariaeth gyfunol gwasanaethau hanfodol a 'datblygu seilwaith cymdeithasol a deallusol' a chloi gwerth cymdeithasol a deallusol i 'gymuned' leol i wella gwir ymdeimlad o le (Froud et al., 2020; Calafati et al., 2019.).

4.11 Model Preston, esiampl o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol

4.11.1 Cyflwyniad

Enghraifft flaenllaw yn y DU o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol yw 'Model Preston', lle mae Cyngor Dinas Preston wedi bod yn datblygu cyfoeth cymunedol yn llwyddiannus ers 2012. Gellir dadlau bod persbectif Preston ar Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol wedi bod yn un o'r dyluniadau y bu sôn amdano fwyaf mewn ail-ddychmygiadau cymdeithasol ac economaidd ers ei sefydlu. Anterth hyn oedd cyhoeddiad academaidd cyntaf '*The Preston Model and Community Wealth Building*' (Manley and Whyman (Es) 2021) a'r cyhoeddiad poblogaidd cyntaf '*Paint Your Town Red*' (Brown and Jones 2021).

Mae'r fenter bellach yn dechrau ar ail gam ei datblygiad (Cyngor Dinas Preston, 2022). Dylai'r ffaith hon fod yn arwydd pwysig i randdeiliaid yr economi sylfaenol yng Nghymru, yn enwedig llunwyr polisi a gwleidyddion. Y gwir amdani yw bod y broses wirioneddol o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol cynaliadwy yn ddiethriad yn arafach na syniadau creadigol a dyheadau prif asiantau newid Datblygu Cyfoeth Cymunedol. Mae'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol yn cymryd amser. Mae amynedd, dwyn perswâd a meithrin syniadau creadigol o'r fath yn hanfodol. Nid yw Datblygu Cyfoeth Cymunedol Cynaliadwy yn agored i 'atebion cyflym' er y gall rhannu profiad prosiectau blaenorol helpu i gyflymu'r broses ddysgu a datblygu wrth gychwyn prosiectau newydd a chychwyn yn gynnar.

4.11.2 Cefndir Model Preston

Ni ddechreuodd MP gyda chynllun na thempled rhagdybiedig. Fel sy'n hysbys iawn, mae llawer o drefi a dinasoedd yng ngogledd Lloegr wedi brwydro ers degawdau i adfywio cryfderau diwydiannol y gorffennol. Daeth hyn i'r pen yn dilyn chwalfa ariannol 2008 a pholisïau llymder dilynol gan lywodraeth ganolog. Rhoddwyd cymhorthdal sylweddol i'r system ariannol i'w hatal rhag dymchwel, fodd bynnag, roedd economïau aelwydydd dan bwysau, roedd buddsoddiad a chynhyrchiant yn wan, a gostyngodd safonau byw. Mae'r cynnydd mewn anghydraddoldeb economaidd rhwng Gogledd a De Lloegr wedi'i ddogfennu'n dda ond nid yw dulliau macro-economaidd wedi unioni'r sefyllfa – fel y gwelwyd wrth roi'r gorau i brosiect Adfywio Ysgubor Ddegwm Preston yn 2011, yn dilyn blynyddoedd o gynllunio a £700m o fuddsoddiad mewnol.

Dilynodd Cyngor Dinas Preston dulliau datblygu economaidd traddodiadol gan geisio denu mewnfuddsoddiad gan gyflogwyr a datblygwyr mawr, gan obeithio y byddai unrhyw fudd o fewnfuddsoddiad yn 'diferu' i gefnogi cwmnïau lleol. Seiliodd sefydliadau angori yn Preston, fel mewn llawer o drefi a dinasoedd yn y DU, eu hymddygiad caffael ar gost, effeithlonrwydd ac osgoi risg. Ni roddwyd ystyriaeth i wariant daearyddol ac anogaeth i ddatblygu cadwyn gyflenwi leol/rhanbarthol, ac nid oedd ychwaith unrhyw gysyniad na pholisi o ddefnyddio caffael fel modd o fynd i'r afael â heriau cymdeithasol a/neu amgylcheddol ehangach.

I bob pwrpas, ychydig iawn o opsiynau datblygu oedd gan Gyngor Dinas Preston yn sgil cwmpwys prosiect mewnfuddsoddi Ysgubor y Degwm. Fodd bynnag, fe wnaeth sbarduno rhanddeiliaid lleol, dan arweiniad Cyngor Dinas Preston, i weithredu. Gyda chefnogaeth partneriaethau gyda'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) a University of Central Lancashire (UCLan), dechreuodd Cyngor y Ddinas feddwl 'y tu allan i'r bocs'. Yn deillio o fethiant mentrau buddsoddi 'traddodiadol', y syniad creadigol oedd ystyried y cyfoeth oedd eisoes yn cael ei gynhyrchu yn y ddinas a chadw'r cyfoeth hwnnw o fewn y rhanbarth. I bob pwrpas, mae'r arloesedd polisi hwn wedi democrateiddio economi leol Preston ac mae bellach yn adeiladu adferiad cadarn a chynhwysol ar draws y ddinas (Cyngor Dinas Preston, 2022). Mae'r agwedd hon wedi cael effaith drawsnewidiol ddwfn sy'n annog ailystyried ystyr cyfoeth lleol. Yng nghyd-destun Datblygu Cyfoeth Cymunedol, mae 'cyfoeth' yn cyfeirio at gyfalaf ariannol a chymdeithasol ac mae llwyddiant Model Preston yn dibynnu ar ddealltwriaeth ac ymarfer llawn o'r diffiniad hwn o 'gyfoeth.'

Ategwyd at y syniad creadigol hwn ar gyfer Model Preston gan ddwy enghraifft allanol, sef y gwaith yn [Cleveland](#), Ohio, yn gysylltiedig â datblygiad menter gydweithredol fythwyrdd a datblygu cysyniad o 'sefydliadau angor' ac ecosystem gydweithredol hirsefydlog [Mondragon](#)

yn rhanbarth Basg, Sbaen. Ymwelodd cynrychiolwyr o Cleveland a Mondragon â Preston a rhannu syniadau â'r cyhoedd, academyddion a gwleidyddion yn Neuadd y Dref ac yn University of Central Lancashire (UCLan) yn 2012 a 2013. Roedd model Mondragon yn sail i'r cynllun ecosystem a fabwysiadwyd yn Preston sy'n cynnwys addysg a chyllid fel elfennau angenrheidiol i gyd-fynd ag ecosystem gydweithredol sy'n datblygu. Mae'r berthynas â Mondragon yn parhau yn gysylltiedig â datblygu hyfforddiant, ymgynghoriaeth a chyflwyniadau yn UCLan a chyda rhanddeiliaid lleol a chyfranogwyr gwleidyddol yn ardal Preston.

Er bod MP wedi'i gysylltu'n aml â gwleidyddiaeth chwith Cyngor Llafur, nid yw egwyddorion a gwerthoedd craidd MP, yn enwedig y rhai sy'n pwysleisio agweddau cydweithredol a chymunedol y Model, o reidrwydd yn hawdd eu hadnabod yn uniongyrchol ag unrhyw ideoleg benodol, ond maent yn agos at gysyniadau 'y cyffredin', a chyfeirir atynt yn aml fel 'synnwyr cyffredin'. Mae tystiolaeth i awgrymu bod llwyddiant MP yn dibynnu'n rhannol ar ei apêl i ystod eang o farn, ac nid i unrhyw ideoleg benodol (Prinos 2021, tt. 39-40).

Agwedd hanfodol a diddorol ar MP, wrth ystyried y dull 'synnwyr cyffredin' hwn yw rôl y brifysgol leol - UCLan. Mae gan y brifysgol, fel sefydliad angori lleol, ran fawr i'w chwarae o ran caffael lleol, ond yn wahanol i angorau eraill, mae'r brifysgol hefyd yn gallu cynnig safle ar gyfer myfyrio a chreadigrwydd. Mae UCLan wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ystod o seminarau, symposiwm a sgysiau cyhoeddus gan wleidyddion amlwg a'r cyfryngau cenedlaethol, yn ogystal â phartner ymchwil a ariennir mewn gwahanol feysydd o'r MP (Morgan 2018; 2019). Ymhellach, mae rhai academyddion prifysgol wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â sefydlu peth o'r datblygiad cydweithredol fel rhan o'r PM, megis y [Preston Co-operative Development Network](#) a'r [Preston Co-operative Education Centre](#). Mae'r cymorth hwn wedi helpu i greu gweledigaeth a fforwm ar gyfer syniadau i gefnogi'r gweithredu 'ar lawr gwlad' ar gyfer rhanddeiliaid Datblygu Cyfoeth Cymunedol.

4.11.3 Ymyriadau cynnar a sicrhaodd lwyddiant

Cyn i MP ddechrau datblygu ei ddyluniad ecosystem go iawn, y gellir ei ddyddio i ddechrau gwaith gyda sefydliadau angori, datblygodd y Cyngor lleol bolisiâu a fyddai'n gefnogol i'r newid. Nhw oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Lloegr i ddod yn gyflogwr achrededig y Living Wage Foundation yn 2011. Mae hyn yn enghraifft o rôl a chyfyngiadau gweithredu uniongyrchol gan awdurdod lleol. Daeth yn amlwg yn fuan mai ychydig iawn o reolaeth oedd gan Gynghorau lleol yn Lloegr o ran datblygiad economaidd uniongyrchol, a chyda thoriadau enfawr i gyllidebau Awdurdodau Lleol dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r pŵer economaidd hwn wedi'i leihau'n sylweddol ymhellach. Yn lle hynny, sylweddolodd y Cyngor fod ganddo'r

modd i gynrychioli syniadau a pherswadio dinasyddion a sefydliadau i ailfeddwl eu rolau a'u gallu i newid. Roedd y Cyngor yn gallu gweithredu fel pont, hwylusydd a chyfryngwr ar gyfer newid.

Y syniad o 'sefydliad angor' yng nghyd-destun Datblygu Cyfoeth Cymunedol yw'r syniad o sefydliad lleol mawr mewn ardal sydd wedi'i 'hangori' yn ei lle. Hynny yw, y gobaith yw y bydd sefydliad o'r fath yn aros yn y gymdogaeth bob amser, mewn unrhyw amgylchiadau economaidd bron. Yn amlwg, mae hwn yn nodwedd a oedd yn apelio'n syth at Preston ar ôl i John Lewis dynnu'n ôl yn sydyn o brosiect Ysgubor y Degwm a thranc yr holl gynllun adfywio hwnnw wedi hynny. At hynny, nid yn unig y mae sefydliad o'r fath wedi'i 'angori' yn y lle, mae'n caffael nwyddau a gwasanaethau sylweddol ac yn cyflogi nifer fawr o bobl. Gall hefyd fod ag arwyddocâd diwylliannol neu emosiynol o ymlyniad i bobl leol. Gallai sefydliadau o'r fath gynnwys, er enghraifft, ysbytai, awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau addysg bellach.

Y syniad syml ond arwyddocaol hwn o harneisio cyfoeth posibl sefydliadau angori er budd yr economi leol oedd datblygiad mawr cyntaf MP. Yn Preston, dechreuodd y broses o annog sefydliadau angori i newid eu harferion caffael fel y gellid gwario a chadw mwy o gyfoeth yn yr ardal leol o fewn fframwaith prosiect URBACT yr Undeb Ewropeaidd (<https://urbact.eu/>). Defnyddiwyd y prosiect i ddod â swyddogion cyllid o'r gwahanol sefydliadau angori at ei gilydd i chwilio ar y cyd am ffyrdd o ailystyried caffael yng nghyd-destun Datblygu Cyfoeth Cymunedol. Mae pecyn cymorth sy'n disgrifio rhai o'r arferion da hyn i'w gael yn '[Making Spend Matter](#)'. Nododd y prosiect dri maes o arfer da: dadansoddiad o wariant i ddangos tystiolaeth o'r anghenion, yr adnoddau a'r opsiynau ar gyfer caffael; ffordd gydweithredol o gysylltu a rhwydweithio rhwng sefydliadau angori; ffordd o ddatblygu prosesau ac arferion caffael.

Ar ddiwedd 2013, comisiynodd Cyngor Dinas Preston y felin drafod, CLES i gynnal 'Dadansoddiad o Wariant' ar gyfer sefydliadau Preston. Darparodd y dadansoddiad hwn o wariant caffael ar gyfer blwyddyn ariannol benodol sylfaen dystiolaeth o'r cyfoeth presennol. Y camau dadansoddi sylfaenol oedd:

- sicrhau cefnogaeth y sefydliad a'r person sy'n gyfrifol am y data caffael;
- nodi maint yr ardal ddaearyddol i'w dadansoddi;
- casglu rhestr o'r cyflenwyr i'r sefydliad am y cyfnod dan sylw;
- cynnal dadansoddiad gwariant o ble y gwariwyd arian mewn termau daearyddol, faint a wariwyd gyda chyflenwyr lleol, faint oedd yn gollwng y tu allan i'r rhanbarth, pa gyflenwyr oedd wedi'u lleoli'n lleol ac mewn mannau eraill.

Dadansoddodd CLES y gwariant caffael gyda'r 300 o gyflenwyr uchaf yn ôl gwerth pob un o'r sefydliadau angori ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Dangosodd y dadansoddiad mai dim ond 5% o wariant cyfunol y sefydliadau angori oedd gyda chyflenwyr yn ardal Preston, a 39% yn rhanbarth ehangach Swydd Gaerhirfryn. Roedd hyn yn golygu bod 61% o'r gwariant yn mynd y tu allan i'r rhanbarth lleol. Roedd y dystiolaeth hon yn ei gwneud yn glir pe bai modd gwneud rhywbeth i ddychwelyd gwariant yn lleol y byddai hyn o fudd i'r ardal leol yn awtomatig. Y cwestiwn canolog oedd 'sut'? Mewn symudiad ysbrydoledig, gyda chefnogaeth prosiect URBACT, cychwynnodd y Cyngor, gyda chefnogaeth CLES, ar strategaeth o annog sefydliadau angori i weithio ar y cyd mewn modd cydweithredol, yn hytrach na chystadleuol, er mwyn ysgogi newid mewn ymddygiad sefydliadol wrth gaffael.

Roedd rhai o'r gweithgareddau 'gweithio ar y cyd' rhwng sefydliadau angori yn cynnwys:

1. Sefydlu gweledigaeth sefydliad angori cyffredin: 'ymrwymiad cydweithredol hirdymor i ddatblygu cyfoeth cymunedol yn Swydd Gaerhirfryn ar gyfer gwariant y gellir dylanwadu arno'.
2. Creu grŵp o swyddogion caffael, gyda chyfarfodydd chwarterol i rannu dysgu am fethodolegau caffael. Ysgogwyd newid trwy bwysleisio'r posibilrwydd o gymhwyso mwy o feini prawf gwerth cymdeithasol i arferion caffael, er budd cyflenwyr lleol.
3. Adnabod bylchau yn yr economi leol. Cefnogodd CLES ddadansoddiad o ble y gallai'r bylchau fod yn yr economi leol. Mewn geiriau eraill, gyda golwg ar ddatblygu yn y dyfodol, gwnaed gwaith i adnabod lle na allai swyddogion caffael wario mwy o arian yn y rhanbarth mwyach oherwydd diffyg cyflenwyr. Pe bai modd 'cau' y bwlch hwn, yna byddai hyd yn oed mwy o fudd i'r economi leol.
4. Creu cronfa ddata o gyflenwyr, fel pan fyddai swyddogion caffael yn ceisio denu bidiau trwy gaffael am nwyddau a gwasanaethau, byddai cyflenwyr yn cael gwybod am y cyfleoedd hynny.
5. Gan feddwl am y mesur effaith ehangach, gan ofyn cwestiynau megis 'faint o swyddi o safon oedd yn cael eu creu?' 'A oedd sefydliadau angori yn mesur eu hallyriadau carbon?'

Yn 2017, mewn proses gyfochrog â'r dadansoddiad gwariant cychwynnol, rhannodd pob sefydliad angori ei wariant caffael gyda CLES. Canfuwyd bod cyfran y gwariant ar draws y chwe sefydliad angor gyda chyflenwyr o Preston wedi cynyddu o 5% i 18%, gan gynrychioli tua £74miliwn yn fwy o wariant lleol. Yn ogystal, roedd gwariant gyda chyflenwyr ehangach yn Swydd Gaerhirfryn wedi cynyddu o 39% i 79%, sy'n cynrychioli £200miliwn yn fwy yn cael ei wario yn rhanbarth Swydd Gaerhirfryn.

Cyflawnodd Cyngor Dinas Preston yr isod drwy'r ymyriadau cychwynnol:

- cynyddu gwariant caffael yn yr economi leol ac annog partneriaid lleol eraill yn y sector cyhoeddus – a ystyrir yn 'sefydliadau angori' – i wneud yr un peth;
- annog cyflenwyr i ychwanegu at 'werth cymdeithasol' eu contractau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.
- daeth yn awdurdod lleol cyntaf yng ngogledd Lloegr i gael ei achredu gan y Real Living Wage Foundation ac mae wedi annog llawer o gyflogwyr eraill yn y ddinas i wneud yr un peth.
- sicrhau bod ehangu cyfleoedd cyflogaeth, prentisiaeth a hyfforddiant lleol yn ganolog i'r Fargen Ddinesig ac wedi'i integreiddio yn ei phroses gynllunio ei hun.
- cefnogi mwy o amrywiaeth o berchnogaeth yn yr economi leol drwy: fuddsoddi'n uniongyrchol mewn asedau allweddol yng nghanol y ddinas;
- dod â rhai gwasanaethau yn ôl yn 'fewnol' i'r Cyngor a hyrwyddo mentrau cydweithredol gweithwyr a busnesau cymunedol.
- annog mwy o gyfoeth ariannol i gael ei gadw'n lleol drwy gyfrannu at sefydlu banc datblygu rhanbarthol ac annog Cronfa Bensiwn Sir Gaerhirfryn i fuddsoddi yn y ddinas.

4.11.4 Y Model Preston Presennol

Un o ddyheadau drachefn Model Preston yw creu mentrau cydweithredol cynaliadwy sy'n eiddo i weithwyr. Yn dilyn cysylltiadau cychwynnol gyda'r mudiad cydweithredol yn Mondragon, cafodd ymchwilyr UCLan eu hariannu gan Gyngor Dinas Preston i ddarparu adroddiad cwmpasu i werthuso'r potensial ar gyfer datblygiad cydweithredol yn Preston (Manley a Froggett 2016). Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig cyfres o argymhellion a dderbyniwyd, yn enwedig creu corff rhwydweithio i gefnogi datblygu a chysylltu mentrau cydweithredol sy'n eiddo i'r gweithwyr, yn seiliedig yn fras ar brofiad Mondragon. Daeth y corff hwn yn Gymdeithas Budd Cymunedol ac mae'n parhau i ddarparu cymorth a dewisiadau rhwydweithio ar gyfer mentrau cydweithredol newydd yn Preston (<https://prestoncoopdevelopment.org/>).

Mae'r mentrau cydweithredol hyn sy'n berchen i weithwyr yn cynnig llywodraethu democrataidd, asiantaeth a chyflogaeth o safon i fusnesau lleol a'r gymuned ehangach. Gan

ddilyn model Mondragon, mae blaenoriaethu mentrau cydweithredol sy'n berchen i weithwyr dros fathau eraill o fentrau cydweithredol (er nad yw'r rhain wedi'u heithrio) er mwyn sicrhau bod cyfoeth cymdeithasol ac ariannol yn cael ei greu a'i gadw'n lleol a bod cyfranogiad mewn democratiaeth yn cael ei annog gan yr arferion llywodraethu cydweithredu. Mae enghraifft Mondragon yn dangos y gall mentrau cydweithredol sy'n berchen i weithwyr fod yn fentrau gwneud arian enfawr ac nad oes unrhyw reswm dros aberthu menter gwneud arian am werth cymdeithasol. Mewn gwirionedd, po fwyaf o arian a gynhyrchir, y mwyaf tebygol yw hi y bydd cymunedau lleol yn ffynnu. Am y rhesymau hyn, mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd cydweithredol a ddefnyddir gan fentrau cydweithredol Mondragon ([fersiwn o'r saith egwyddor cydweithredol rhyngwladol](#)), yn egwyddorion nid yn unig ar gyfer y mentrau cydweithredol newydd yn Preston, ond ar gyfer Model Preston yn ei gyfanrwydd.

Mae'r saith egwyddor cydweithredol graidd hyn yn cwmpasu: cyfranogiad agored a gwirfoddol; sefydliad democrataidd (system un person, un bleidlais); sofraniaeth lafur; natur gyfryngol ac israddol cyfalaf; cyfranogiad mewn rheolaeth; undod cyflog; rhyng gyd-weithio; trawsnewid cymdeithasol; cyffredinolrwydd ac addysg.

Mae gan y mentrau cydweithredol hyn sy'n datblygu yn Preston y potensial i ddarparu swyddi lleol o safon sydd hefyd yn cynhyrchu ac yn cadw cyfoeth economaidd lleol ac yn annog gwreiddio'r egwyddorion a restrir uchod ac yn dod ag egwyddorion o'r fath, y gellir eu dehongli fel rhai sy'n mynd y tu hwnt i egwyddorion rheoli busnes syml, yn ôl i gymunedau lleol. Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer cyfranogiad democrataidd lleol allan o'r gweithle ac i'r gymuned.

Er bod datblygiad mentrau cydweithredol newydd wedi bod yn araf ac nid yw'r pandemig wedi helpu, mae'r prosiect wedi ysgogi digon o ddiddordeb i ddod â chyllid a ddyfarnwyd i UCLan i mewn yn rhannol ar gyfer creu busnesau cydweithredol newydd gan Open Society Foundations. Mae'r cysyniad sylfaenol y tu ôl i'r strategaeth wedi derbyn cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid yn Preston a bydd yn dod i'r amlwg mewn grŵp rhwydwaith cryf o gwmnïau cydweithredol lleol sy'n eiddo i weithwyr yn y dyfodol. Mae partneriaid yn Mondragon yn monitro'r datblygiadau hyn yn ofalus.

O ran yr Undebau Llafur a datblygiad Cwmnïau Cydweithredol yr Undeb yn Preston, mae hanes diweddar wedi gweld ansicrwydd economaidd a marchnad lafur yn cyd-daro â dirywiad yng nghyfreithlondeb a chryfder undebau llafur - gan wneud yr achos dros arloesi yn y mudiad llafur hyd yn oed yn fwy hanfodol. Gellir dadlau y gall adfywiad undebau ganfod gynghreiriad derbyniol mewn lleoedd sydd wedi ymrwymo i ddulliau newydd o ymdrin â chyfiawnder economaidd megis yr economi sylfaenol a datblygu cyfoeth cymunedol. Gall undebau, yn eu

tro, chwarae rhan gefnogol angenrheidiol. Man cyswllt pwysig yn Preston fu'r amcan polisi lleol o annog datblygiad cydweithredol, yn benodol drwy fentrau cydweithredol gweithwyr i fynd i'r afael â bylchau mewn strategaethau caffael sefydliadau angori lle nad yw cwmnïau lleol yn bresennol ar unwaith i ymateb i gyfleoedd tendro ac, yn fwy cyffredinol, i ddyfnhau ymgysylltiad democrataidd dinasyddion yn unol â'r genhadaeth cyfiawnder cymdeithasol ehangach. Gellir dadlau bod datblygiadau o'r fath sy'n seiliedig ar le a 'dinasoliaeth newydd' eraill yn cynnig manau unigryw ar gyfer creu ffurfiau ac arferion sefydliadol newydd (McInroy & Calafati 2017).

Er gwaethaf treftadaeth hir o gysylltiadau a threfnu ar y cyd rhwng ochrau cydweithredol ac undebau llafur y mudiad llafur, bu tensiynau a rhwygiadau hefyd sy'n golygu bod angen goresgyn rhywfaint o waddol o ddiffyg ymddiriedaeth er mwyn gwireddu potensial twf yn y sector cydweithredol yn llawn. Mae undebau llafur wedi ymddangos yn amwys i fynd ar drywydd rheolaeth gweithwyr trwy ffurfiau cydweithredol (Laliberté 2013) a rhaid cydnabod hefyd amheuan undebau llafur ar ran mentrau cydweithredol (Monaco & Pastorelli 2013). Ar adeg pan fo undebau ledled y byd yn ceisio adnewyddu eu galluoedd trefnu, mae cydnabyddiaeth bod democratiaeth yn y gweithle o leiaf yn nod ymhlyg i'r genhadaeth hon yn gwrthbrofi ffurfiau trefniadol cydweithredol, ac mae eu dulliau penodol o reoli gweithwyr yn ymddangos yn ddryslyd o afresymegol. Yn amlwg, mae gwaith i'w wneud er mwyn datrys y tensiynau hyn ac mae rhai datblygiadau yn Preston yn dangos sut y gellir cyflawni hyn a sut y gellir ei ailadrodd.

Yn ddelfrydol, gallai llywodraeth sympathetig sy'n gweithredu mewn amgylchiadau economaidd ffafriol ddibynnu ar fudiad llafur llawn egni i adnabod, arloesi a gweithredu syniadau ar gyfer adfywio effeithiol a chynaliadwy. Er bod y rhan fwyaf o ddangosyddion economaidd a gwleidyddol yn ymddangos yn llai na ffafriol, efallai y byddai ailymweld â democratiaeth gweithwyr wedi'i fframio gan weithleoedd cydweithredol yn wir yn addas ar gyfer y cyfnod ansicr presennol hwn. Gallai'r siociau economaidd a chymdeithasol yr ydym yn byw drwyddynt, gan gynnwys yr argyfwng COVID-19, Brexit, gwrthdaro geo-wleidyddol a'u hôl-ffeithiau parhaus tebygol, gynnis cyfleoedd i adnewyddu economïau ac undebau llafur yn deg (Bird et al 2020a).

Mae undebau llafur yn bodoli i sefydlu dull cyfreithlon o gefnogi lleisiau gweithwyr a galwadau materol o fewn gweithleoedd ac, yn y pen draw, i weithwyr gael rheolaeth ar y modd y mae eu gwaith yn cael ei drefnu. Mae gallu undebau i gyflawni nodau o'r fath yn cael ei danseilio gan wendid cyffredinol a blaengar sy'n gysylltiedig ag argyfwng cyfreithlondeb dyfnach o bosibl, gydag undebau dros y blynyddoedd wedi canolbwyntio adnoddau ar wasanaethu aelodaeth yn hytrach na threfnu (Holgate, 2021; Hyman, 2007; Jarley, 2010). Rhaid i unrhyw

alw haeddiannol i gynyddu democratiaeth yn y gweithle fod yn seiliedig ar ddemocratiaeth fewnol wedi'i hadfywio o fewn undebau eu hunain (Gumbrell-McCormick & Hyman 2019). Ochr yn ochr â'r tueddiadau hyn mewn grym undebol sy'n gostwng, er gwaethaf tystiolaeth o'i annhegwch a'i anghynladwyedd, mae neo-ryddfrydiaeth yn goroesi i ymestyn prosiectau preifateiddio, dadreoleiddio, a chrynhoi cyfoeth a grym, gan wanhau cyfreithlondeb undebau ymhellach mewn storm berffaith o ddeddfau gwrth-undebau a syrthni undebau eu hunain wrth ymgymryd â heriau trefnu yng nghyd-destun globaleiddio, gwaith ansicr a chydabyddiaeth gyfyngedig (Anderson et al., 2010). Yn y math hwn o hinsawdd mae hyd yn oed dulliau heb undeb o gefnogi llais gweithwyr wedi'u diarddel ac ymddengys bod undebau'n cilio oddi wrth eu gofynion sylfaenol am ddemocratiaeth ddiwydiannol.

Mae hyn oll wedi tansilio'n ddifrifol gydfargeinio a dylanwad undebau llafur yn y gweithle. Mae hunaniaeth gref gweithwyr yn flaenorol wedi lleihau yng nghanol newidiadau sectoraidd yn nhectoneg economïau oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol tuag at economi sy'n fwy seiliedig ar wasanaethau (Holgate, 2013; Wills & Simms, 2004). Nawr mae mwy na 75% o weithwyr y DU yn cael eu cyflogi yn y sector gwasanaethau. Mae'r newid hwn yn creu cymhlethdodau ychwanegol ar gyfer trefnu undebau gan ei fod yn nodweddiadol yn cyd-fynd â chyfluniadau gofodol mwy tameidiog a gwasgaredig o weithleoedd a bywyd domestig na'r rhai sy'n ymwneud â ffurfiau traddodiadol o weithgynhyrchu a diwydiannol.

O ran yr undebau llafur a'r datblygiad cydweithredol yn Preston, gellir dadlau bod ymateb yr undebau i ddiffygion trefniadol a chyfreithlondeb canfyddedig yn cynnig gofodau diddorol ar gyfer arloesi trwy ddulliau economaidd dinesig newydd megis Model Preston a'r Economi Sylfaenol. Wedi dweud hynny, ni ellir cymryd yn ganiataol bod undebau'n cymryd rhan mewn mentrau o'r fath ac, yn enwedig mewn perthynas â chymorth ar gyfer datblygu cydweithredol, mae ymgysylltu â chymorth undebau llafur yn gofyn am ddealltwriaeth o rai tensiynau hanesyddol a gelyniaeth rhwng mudiadau cydweithredol ac undebau.

Mae mentrau cydweithredol bob amser wedi bod yn rhan o ddull cyffredinol Preston o ddatblygu cyfoeth cymunedol (Manley, 2018; Manley & Froggett, 2016). Bwriad creu cwmnïau cydweithredol newydd i weithwyr yw ategu strategaethau caffael blaengar, yn ddelfrydol gallu ymateb i fylchau mewn rhaglenni caffael lle nad oes unrhyw gwmni lleol yn rhwystro cwmnïau allanol neu uwch gwmnïau rhag ennill tendrau (Jackson & McInroy, 2015). Yn hyn o beth, ysbrydolwyd arweinwyr allweddol o fewn angorau Preston gan gyfnewidfeydd rhyngwladol gyda chydweithwyr a oedd wedi'u trwytho mewn ffordd o feddwl ecosystem gydweithredol, megis o Mondragón a lleoedd yn yr Unol Daleithiau sydd hefyd wedi'u llywio gan gynghreiriau â Mondragón, megis yn Cleveland, Cincinnati, ac Efrog Newydd.

Wedi'i hysbrydoli hefyd gan lwyddiannau Mondragon, ond yn effro i fylchau penodol, mae'r Union Co-ops UK sydd newydd ei sefydlu i hyrwyddo ffurf benodol, cwbl undebol o berchnogaeth gweithwyr. Nid yw'n syndod oherwydd y cyfleoedd a gyflwynir gan ddull datblygu cyfoeth cymunedol Preston a'r ymrwymiad amlwg i fentrau cydweithredol gweithwyr yn arbennig, lle mae cryn dipyn o drawsgroesiad mewn aelodaeth a chynghreiriau cynyddol rhwng Union Co-ops UK ac unigolion/grwpiau sy'n weithredol o fewn Model Preston. Gweithred gyntaf Union Co-ops UK oedd cynhyrchu maniffesto ar gyfer mentrau cydweithredol undeb, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2020 (Bird et al. 2020b). Mae'r maniffesto yn disgrifio strwythur llywodraethu cydweithredol gyda man diffiniedig ar gyfer mynegi cynrychiolaeth undebau llafur o fuddiannau gweithwyr sy'n eistedd mewn cyfodiad democrataidd i'r man lle mae gweithwyr-aelodau (perchnogion) yn rheoli eu busnes. Mae'r model Cydweithredol Undebau arfaethedig yn un o'r gwahanol ffyrdd y gall undebau ymuno â mudiadau cydweithredol. Mae'r maniffesto'n disgrifio nifer o astudiaethau achos rhyngwladol o gwmnïau cydweithredol gweithwyr, gan dynnu sylw at wersi allweddol ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gydweithio rhwng undebau llafur a'r mudiad cydweithredol. Felly, mae dull cydweithredol yr undeb yn cael ei argymhell fel un ffordd o drefnu democratiaeth yn y gweithle a rheolaeth gweithwyr. Nid yw cydnabod ei werth o reidrydd yn eithrio diddordeb mewn dulliau cydweithredol gweithwyr eraill.

O fewn y math arbennig hwn o gwmni cydweithredol gweithwyr, mae'r undeb llafur yn gweithredu i gynrychioli buddiannau gweithwyr ac i wirio a chydbwysu yn erbyn penderfyniadau gweithiwr/aelod sy'n groes i egwyddorion undeb. Mae Union Co-ops UK yn rhoi pwyslais ar Argymhelliad 193 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, gan annog cydweithio rhwng undebau llafur a chwmnïau cydweithredol tuag at y nod yn y pen draw o waith teilwng i bawb. Mewn Cwmni Cydweithredol Undeb, mae lleoliad dylanwad undebau llafur yn adlewyrchu agwedd Cyngor Cymdeithasol cwmnïau cydweithredol Mondragón, gyda phwyllgor undeb yn dirprwyo ar ran Cyngor Cymdeithasol o fewn y fframwaith llywodraethu. Yn ogystal, mae'r maniffesto'n cynnig model cydweithredol yr undeb fel ffordd bosibl o hyrwyddo newid cymdeithasol mwy trawsnewidiol yn ogystal â bod yn ffurf sefydliadol ddemocrataidd gredadwy. At hynny, yn unol ag egwyddorion allweddol Datblygu Cyfoeth Cymunedol a'r Economi Sylfaenol, gall cwmnïau cydweithredol undebau fod yn gyfrwng i warantu sicrwydd swydd, gwella telerau ac amodau cyflogaeth, a chyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol. Ategir model cydweithredol yr undeb gan ddeg egwyddor cydweithredol rhyngwladol allweddol (gweler Atodiad 7).

Gall cwmni cydweithredol undeb fod yn fuddiol i undebau llafur mewn sawl ffordd. Nid yw cwmni cydweithredol undeb yn dileu'r angen i weithwyr fod mewn undeb, yn hytrach mae'n

lleoli undebau mewn safle canolog o fewn llywodraethu'r cwmni cydweithredol. Croesewir hefyd y posibilrwydd o weithlu undebol 100%: siop gaeedig trwy gonsensws. Gellir dadlau bod cwmnïau cydweithredol gweithwyr yn fanteisiol hyd yn oed os nad ydynt yn llwyddo'n llawn i greu cwmni cydweithredol undeb. Er enghraifft, mae cwmnïau cydweithredol gweithwyr wedi'u sefydlu'n llwyddiannus mewn sectorau a nodweddir gan waith ansicr a dwysedd undeb isel. Yn y cyd-destunau hyn ac eraill, mae cwmnïau cydweithredol gweithwyr wedi sicrhau codiadau cyflog ac wedi gwella telerau ac amodau eraill. O fewn cwmni cydweithredol gweithwyr neu undeb, mae rheolaeth yn dod yn swyddogaeth gweithiwr nid swydd o statws neu fraint. Mae llawer o gwmnïau cydweithredol gweithwyr hefyd yn creu cyfle i undebau ac yn ffurfio cynghreiriau â'r mudiad undebau. Yn y pen draw, gall y democrateiddio hwn, sydd ymhlyg i gwmnïau cydweithredol gweithwyr, gyfrannu'n sylweddol at adfywio undebau ac, o fewn hyn, perthnasoedd cymunedol.

Mae realiti dull Preston o ddatblygu cyfoeth cymunedol wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu cwmnïau cydweithredol gweithwyr fel y'i diffinnir yn gyffredinol. Mae busnesau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar yn cynnwys menter gydweithredol ddigidol a chwmni cydweithredol tacsis du. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer cwmni cydweithredol yn y sector adeiladu, gyda chefnogaeth undebau llafur perthnasol, gan fanteisio ar fuddsoddiad sylweddol a ddyrannwyd i adeiladu sinema ddinesig newydd.

4.11.5 Datblygiadau Model Preston

Mae Canolfan Addysg Gydweithredol Preston (PCEC), cwmni cydweithredol undeb, wedi'i chyfansoddi fel y cwmni cydweithredol undeb cyntaf yn y wlad. Mae'n bodoli i ddarparu addysg cwmni cydweithredol ac undebau llafur. Sefydlwyd PCEC gyda chefnogaeth gan nifer o undebau llafur a'r Cyngor Llafur Lleol. Cefnogodd cyllid Open Society Foundations a ddyrannwyd i Preston i 10 cwmni cydweithredol gweithwyr newydd gael eu datblygu a mandadwyd un o'r rhain i fod yn ganolfan addysg gydweithredol. Fe wnaeth gwaith dilynol a ariannwyd gan y grant hwn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried creu ecosystem entrepreneuriaidd gydweithredol, sy'n ffyddlon i dempled Mondragon ac wedi'i hysbysu gan ymgynghoriaeth uniongyrchol o Mondragon ac actifyddion ac arweinwyr un Gweithiwr un Bleidlais.

Nod y PCEC yw cael rôl ganolog o fewn yr ecosystem hon a bod yn gatalydd ar gyfer hyrwyddo'r model cydweithredol undebol ymhlith ffurfiau cydweithredol eraill ac i chwarae rôl wrth hybu cynghreiriau rhwng undebau, cydweithredwyr a'r gymuned, yn bennaf trwy gyfnewid gwybodaeth. Mae'r PCEC hefyd wedi ymrwymo i ddulliau addysgeg cymdeithasol blaengar fel bod gwerthoedd cydweithredol, democrataidd a pherthnasol wedi'u gwreiddio yn y model

addysgu a dysgu. Mae ymdrechion parhaus, gyda chefnogaeth y Coleg Cydweithredol ac UCLan, wedi canolbwyntio ar ddyheadau i weithredu masnachfaint Prifysgol Gydweithredol ffederal newydd. Byddai hyn yn cynnig astudiaeth lefel gradd yn ymwneud â chwmnïau cydweithredol.

Mae gwaith cynnar sydd ar y gweill yn cynnwys dau brosiect yn dibynnu ar gyllid sbarduno gan PCC i ddatblygu llif undeb tuag at ddatblygiad cydweithredol. Mae'r cyntaf yn gydweithrediad ag UNITE yr undeb, sy'n canolbwyntio ar gapasiti cyflogaeth a galluoedd ar gyfer gweithwyr ymylol, grwpiau sydd wedi'u hallgáu a gweithwyr sydd mewn perygl o gael eu diswyddo. Yn y cyd-destun hwn, mae gan UNITE raglen o gymorth ac addysg yn barod a all arwain at gyfranogwyr yn ffurfio eu busnes eu hunain neu'n dod yn hunangyflogedig. Bydd PCEC yn cyfrannu at ddysgu am gwmnïau cydweithredol gweithwyr fel bod hyn yn dod yn opsiwn i'r gweithwyr hyn. Mae'r ail yn bartneriaeth gydag Undeb y Pobyddion Bwyd a Gweithwyr Perthynol (BFAWU). Bydd hyn yn cynnwys swyddogion ac arweinwyr undeb ac aelodau cyffredin yn Preston yn dysgu am y potensial ar gyfer cwmnïau cydweithredol gweithwyr. Dyhead yw y gallai aelodau BFAWU ddod yn rymus i ystyried gweithwyr yn cymryd yr awenau ar fusnesau lleol, megis tafarndai a bwytai sydd wedi mynd i drafferthion economaidd ar ôl y pandemig ond a allai fod yn fusnesau hyfyw er hynny. Nodwedd nodedig o gydweithrediad BFAWU yw ymglymiad agos ysgrifennydd cyffredinol yr undeb a llywydd yr undeb sydd wedi dangos diddordeb croesawgar mewn cwmnïau cydweithredol gweithwyr ac undebau, a ysbrydolwyd yn rhannol gan lwyddiant nodedig y cwmni cydweithredol gweithwyr SUMA yn y rhanbarth.

Mae comisiynwyr arbenigol lleol yn rhanbarth Preston, sy'n ymwneud â'r groesffordd rhwng iechyd a chyfiawnder troseddol, wedi buddsoddi cyllid cymharol sylweddol i ddatblygu syniadau ar gyfer creu cwmnïau cydweithredol i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i garcharorion a chyn-garcharorion. Mae rhywfaint o'r brwdfrydedd hwn yn seiliedig ar y potensial ar gyfer incwm a enillir a natur ddemocrataidd y broses lafur gydweithredol i gysylltu â nodau'r system cyfiawnder troseddol o hyrwyddo ymatal rhag troseddu ac ymddygiad cymdeithasol ehangach (Weaver & Nicholson, 2012; Weaver, 2016). Mae'r fenter hon yn gysylltiedig â Model Preston ac wedi'i hannog gan ymwybyddiaeth o fentrau cydweithredol cymdeithasol blaengar a sefydlwyd yn rhanbarth Emilia Romagna yn yr Eidal (Thomas, 2004). Mae mentrau cydweithredol posibl yn cael eu harchwilio mewn perthynas â gwerthu crefftwaith, garddwriaeth/dosbarthu bwyd, ac adeiladu/adnewyddu tai.

Yn ogystal â diddordeb yn yr economi sylfaenol a chaffael ar gyfer gwerth cymdeithasol, mae'r sector gofal yn debygol o gynrychioli cyd-destun hynod ddiddorol ar gyfer arloesi a datblygu cydweithredol. Oherwydd polisiau mewnoli/gwrth-breifateiddio cyffredinol yr undebau sector

cyhoeddus mawr, mae rhai meysydd o densiwn wrth sefydlu cynghreiriau undeb-cydweithredol yn y sector hwn. Fodd bynnag, mae gan undebau llafur ddigon o ddiddordeb mewn gwella ansawdd a fforddiadwyedd gofal, telerau ac amodau'r gweithlu gofal, a llais gweithwyr yn y diwydiant. At hynny, mae'r economi gofal yn cynrychioli potensial enfawr ar gyfer dewisiadau amgen mwy trugarog, cynaliadwy i'r model menter preifat presennol. Gellid cynnig moeseg fwy perthynol a amlygir mewn model cydweithredol, sy'n addas ar gyfer gwaith gofal yn arbennig, a fyddai'n sail i'r cysyniad o drawsnewid cymdeithas ehangach ac yn hyrwyddo mabwysiadu egwyddor drefniadol o ofal (Howard, 2020). Mae gwaith ansicr eang yn y sector wedi ysgogi rhywfaint o ymgysylltiad undebau llafur gyda'r potensial o atebion cydweithredol sy'n dal addewid o waith boddhaol (Conaty et al., 2018).

Dylai cael lle i feddwl yn flaengar am y ffordd orau o drefnu gwaith ochr yn ochr â buddiannau mewn democratiaeth yn y gweithle fel nod sylfaenol o drefnu undebau. O'r safbwynt hwn, gan gydnabod bod y wladwriaeth yn aml wedi'i chipio gan neo-ryddfrydiaeth, mae mentrau cydweithredol gor-symyl y gwrthwynebwyr yn gyfle a gollwyd. Mae methiant hefyd i gysylltu â threftadaeth gymdeithasol mudiad llafur cyfoethog (Burgemann, 2005; Taylor, 2014, 2017). Yn gymharol ddiweddar, mae undebau llafur mewn gwirionedd wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio polisiau perthnasol ynghylch cwmnïau cydweithredol. Er enghraifft, cymerodd undebau ran adeiladol yng Nghomisiwn Cwmnïau Cydweithredol y mileniwm llywodraeth Blair. Yng nghyd-destun llywodraeth ddatganoledig y DU, mae cynghreiriau cwmnïau cydweithredol undeb adeiladol amrywiol wedi'u sefydlu yng Nghymru. Cyn belled yn ôl â 1982, ffurfiodd TUC Cymru Ganolfan Cydweithredol Cymru (WCC) gan gynnal perthynas gref ar draws y degawdau a ddaeth wedyn, gydag ymrwymiad cryf i amcanion cymdeithasol a chynaliadwy a chyd-fuddion parhaus wedi'u gwireddu i bob parti. Mae'r Fforwm Cydweithrediad Cymdeithasol yn rhwydwaith aelodaeth sy'n tyfu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau cydweithredol yn y sector gofal.

Megis dechrau y mae'r ymdrechion i ddatblygu cwmni cydweithredol yn y sector gofal yn Preston. Gan gydnabod bod yn rhaid i undebau chwarae rhan ymgysylltiol sy'n canolbwyntio egni cynnar ar ddeialog gydag aelodau undeb, gweithredwyr a swyddogion yn swyddfa Ranbarthol Gogledd-orllewin Unsain a changhennau lleol. Cafwyd derbyniad cymysg wrth berswadio undebwyr llafur o werth agwedd gydweithredol. Mae cymorth gwybodus a hysbys yn cyd-fynd â rhywfaint o syrthni, gwrthddadleuon a gwrthwynebiadau. Fel mewn unrhyw sefydliad biwrocraidd mawr, mae safbwyntiau'n heterogenaidd ac wedi'u gwasgaru'n anghyson ar wahanol lefelau o fewn yr undeb. Roedd y cyd-destun gwleidyddol lle cafwyd deialog gynnar yn ddefnyddiol, gyda digon o affinedd â Model Preston

Nid yw pryderon undebau llafur ynghylch atebion cydweithredol yn y sector gofal yn ymwneud ag amcanion perchnogaeth gyhoeddus yn unig. Mae persbectif mwy cynnil yn cydnabod bod busnesau gofal eisoes, ac yn aml bob amser wedi bod, yn y sector preifat, neu nad yw nodi nod mewnnoli yn unig yn creu'r amodau ar unwaith ar gyfer galluogi hyn. Gellir dadlau bod angen setiau soffistigedig o ymatebion ar undebau a gallant weld bod yn rhaid i'r sector gofal sydd wedi'i ffurfweddu ar hyn o bryd, er ei fod yn cael ei esgeuluso'n aml, fod yn bwynt pwysig ar gyfer ymgyrchu gan undebau a thwf recriwtio posibl. Hyd yn oed gydag ymrwymiad i ffurfio cydweithredol, mae strwythur y farchnad a'r diffygion ariannu a fynegir yn y lefelau comisiynu hefyd yn rhwystrau difrifol i'w goresgyn. Felly, mae deialog yr undebau llafur yn Preston wedi symud oddi wrth ymlyniad gor-syml at amcanion mewnnoli i godi materion pwysig o ran sut i ddarparu ar gyfer materion fel pensiynau gweithwyr ar raddfa os gallai'r gweithgareddau cydweithredol cychwynnol gynnwys datblygiad tameidiog o fusnesau cydweithredol ar raddfa fach. Mae gweithredwyr undeb hefyd yn eithaf gwyliadwrus rhag rhoi aelodau bregus ac agored i niwed o'r gweithlu gofal ar flaen y gad o ran trefnu mewn amgylchedd sy'n gyfariol ag arferion cyflogaeth gormesol gan gynnwys erlid gweithredwyr a gweithwyr sy'n ceisio cynrychiolaeth.

Mae deialog adeiladol sy'n canolbwyntio ar atebion ynghylch gwerth cwmnïau cydweithredol a gweithwyr cydweithredol yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen yn Preston a thu hwnt. Mae gwarsi i'w dysgu o hanes a gobeithio nad yw camsyniadau blaenorol yn cael eu hailadrodd. Mae trefnwyr undeb wedi hen arfer delio â heriau gweithredu yn yr economi gymdeithasol breifat a gwirfoddol, gan gynnwys delio â chyflogwyr ymosodol heb fawr o sylw i hawliau gweithwyr, cysylltiadau cyflogaeth gwael a diffyg cydnabyddiaeth. Mae trefnu undebau yn gymhleth ac yn heriol mewn amgylchiadau o'r fath ac mae trefnwyr yn wynebu penderfyniadau strategol anodd wrth gydbwysu'r rheidrydd trefniadol o hyrwyddo llais ac ymreolaeth o fewn lleoliadau lle mae gweithwyr yn ofnus ac yn agored i niwed ac efallai'n dymuno cael mwy o ddarpariaeth gwasanaethu.

Mae trefnu o fewn fframwaith o apeliadau am ddewisiadau cydweithredol amgen yn cynnig ffordd o weithio y tu hwnt i syniadau confensiynol undebau llafur tuag at atebion arloesol i'r cyfyng-gyngor hyn. Mae Matthew Brown, arweinydd Cyngor Dinas Preston (CSP) yn credu os bydd undebau'n methu ag ystyried dewisiadau amgen cydweithredol, eu bod ar yr un pryd yn methu â herio'r status quo. Felly, er gwaethaf rhethreg o fewnoli a all fod yn anodd neu'n amhosibl ei gyflawni mewn rhai manau, maent mewn perygl o ildio'r fenter ar faterion perchnogaeth, cyflog ac ansicrwydd, gan adael yn eu lle'r busnesau preifat echdynnol sydd wrth wraidd y broblem.

Mae swyddogion ac ymgyrchwyr Unsain rhanbarthol y gogledd-orllewin eisoes wedi ymgysylltu â dadleuon beirniadol lleol sy'n canolbwyntio ar sefydlu cwmni gofal cydweithredol yn Preston. Safbwynt yr undeb yw ystyried ffurfiau trefniadol amgen wrth gynnal ymrwymiad polisi trosfwaol i fewnoli; y diddordeb uniongyrchol yw gweld a ellir sefydlu enghraifft gadarn leol o gwmni gofal cydweithredol a'i brofi'n ymarferol. Ar gyfnas ehangach, mae'r datblygiad hwn o syniadau craidd yn gydnaws ag ymdrechion trefnu cydunol yn y sector, wedi'u hadeiladu o amgylch gofynion cyflog byw gwirioneddol yr undeb o fewn ymgyrch Gweithwyr Gofal dros Newid a gweithredu Siarter Gofal Moesegol. Mae rhanbarth y Gogledd-orllewin yn arwain yr undeb o ran targedau trefnu a recriwtio, gan brofi twf aelodaeth net yn y blynyddoedd cyn y pandemig.

4.11.6 Beth all Cymru ei ddysgu o Fodel Preston

Economi Sylfaenol. Ar y lefel strategol byddai angen gwreiddio Economi Sylfaenol mewn cynlluniau strategol a strategaeth sefydliadol.

5.3.4 Data cyfweiliad gweithredwyr (defnyddwyr)

Roedd yr adroddiad yn cyfweild ag wyth o unigolion o sefydliadau sydd wedi gweithredu neu wedi dechrau gweithredu egwyddorion Economi Sylfaenol, o fewn eu sefydliadau, a ddisgrifir fel 'gweithredwyr' yn yr adroddiad hwn. Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol i'r gweithredwyr i'r rhanddeiliaid (gweler Atodiad 3). Cafodd y cyfweiliadau eu recordio a'u trawsgrifio gyda'r data wedi'u crynhoi i'r themâu a amlinellir yn y tabl isod (Tabl 5.3). Mae'r cyfweleion yn cael eu cyflogi mewn Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Adrannau Llywodraeth Cymru a Chymdeithasau Tai. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion y themâu a ganfuwyd o'r data, yn eu tro isod.

Dangoswyd y 'Fframwaith Datblygu Galluogrwydd' i'r rhai a gyfwelwyd (gweler Tabl 5.1) a gofynnwyd am eu barn. Dywedodd y gweithredwyr (88%) fod y fframwaith yn ddefnyddiol o ran tynnu sylw at y prosesau meddwl sydd eu hangen wrth ystyried ymyriadau a rhaglenni datblygu sefydliadol. Dywedasant fod y fframwaith hefyd yn ddefnyddiol o ran egluro'r gwahanol fathau o ymyriadau i'w hystyried a'r grwpiau neu adrannau o fewn y sefydliad y gellir eu datblygu. Dywedodd un ymarferwr fod y fframwaith yn ddefnyddiol i ystyried y penderfyniadau *'pwy, beth a phryd'* sydd eu hangen wrth ddatblygu galluoedd ymarferwyr.

Arweiniodd cyflwyno'r 'fframwaith datblygu galluogrwydd' i'r gweithredwyr drafod gwahanol ddulliau a chynnwys datblygu galluogrwydd. Dywedodd chwe deg tri y cant o'r gweithredwyr fod blas ar ddysgu yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n ymarfer gan fod cyfnodau hir allan o'r sefydliad yn her. Roeddent yn awgrymu bod ymarferwyr yn ei chael yn haws rhoi modelau neu brosesau ar waith yn ailadroddol, sy'n gwneud blas ar ddysgu yn fwy defnyddiol. Dywedodd hanner yr holl weithredwyr y cyfwelwyd â nhw fod fideo deniadol a chynnwys wedi'i animeiddio yn ddefnyddiol i ymarferwyr ddysgu gan eu bod yn gallu ei gyrchu ar amser sy'n gyfleus iddynt, gwnaethant hefyd gynghori bod cynnwys rhyngweithiol ar y we (rhaglenni hyfforddi) yn effeithiol ar gyfer datblygu gwybodaeth ymarferwyr a dealltwriaeth o gysyniadau. Fodd bynnag, roedd yn anodd gwneud amser ar gyfer datblygiad gwe'r gweithredwyr ac roedd yn aml yn generig.

Disgrifiodd y mwyafrif helaeth (88%) o weithredwyr a gyfwelwyd gwerth rhaglenni rhyngweithiol, megis cymunedau ymarfer, setiau dysgu gweithredol a rhaglenni hyfforddi/datblygu personol rhyngweithiol. Dywedodd y cyfranogwyr hyn fod ymyriadau o'r

fath yn effeithiol ar gyfer datblygu dysg ymarferwyr gan eu bod yn galluogi ymarferwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chymheiriaid a gosod modelau a fframweithiau yn eu cydestun yn eu gweithleoedd penodol. Dywedodd y mwyafrif (75%) o'r gweithredwyr fod grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau yn gyffredin i weithredu neu roi cysyniadau fel yr Economi Sylfaenol ar waith. Disgrifiodd yr ymarferwyr sut y defnyddiwyd grwpiau gorchwyl a gorffen neu grwpiau 'adleoli strategaeth' i weithredu Economi Sylfaenol ar ôl i raglen hyfforddiant Economi Sylfaenol gychwynnol gael ei defnyddio fel cyflwyniad i Economi Sylfaenol. Yna bu'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn trafod ac yn datblygu cynlluniau i roi Economi Sylfaenol ar waith yn eu maes gweithredu. Tynnodd y gweithredwyr sylw at y ffaith bod hyder cymharol ymarferwyr yn lliniaru ar eu gallu i roi syniadau a chysyniadau ar waith, gan awgrymu bod hyder yn amrywio fesul unigolyn. Soniodd y gweithredwyr hefyd am bwysigrwydd rhoi pwyslais ar allbynnau a chanlyniadau ymyriadau datblygu, gan awgrymu nad yw cyrsiau traddodiadol sy'n cyflwyno cymwysterau bob amser yn arwain at ddatblygu prosesau newydd yn llwyddiannus. Felly, dylai ymyriadau ymarferwyr wreiddio allbynnau a chanlyniadau sefydliadol penodol a ddylai fod yn rhan o'r gwerthusiad o'r ymyriadau.

Dywedodd yr ymarferwyr a gyfwelwyd nad oedd egwyddorion yr economi sylfaenol wedi'u gweithredu'n eang ar draws eu sefydliad. Dywedodd y mwyafrif (63%) fod Economi Sylfaenol wedi'i weithredu (yn rhannol) o fewn prynu, datblygu sgiliau sefydliadol ac ymgysylltu â chyflenwyr (yn gysylltiedig â gweithgarwch prynu) a swyddogaethau datblygu economaidd. Dywedodd wyth deg wyth y cant o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd dealltwriaeth eang o Economi Sylfaenol ar draws eu sefydliad. Fodd bynnag, dywedasant mai cysyniad diweddar yw Economi Sylfaenol ac nad oedd eu sefydliad wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o Economi Sylfaenol ar draws y sefydliad cyfan wrth gynghori bod egwyddorion yr Economi Sylfaenol yn bwysig iawn o ran sicrhau ffyniant lleol a rhanbarthol. Dywedodd y mwyafrif o weithredwyr (63%) y dylid cyfathrebu'r term Economi Sylfaenol a'i egwyddorion mewn Saesneg/Cymraeg clir ac mewn iaith neu derminoleg sy'n bodoli o fewn y sefydliad. Cynghorodd y gweithredwyr hefyd y dylai elfennau neu egwyddorion Economi Sylfaenol gael eu halinio â'r strategaeth sefydliadol bresennol i sicrhau gweithrediad llwyddiannus wrth i'r rhan fwyaf o sefydliadau ddatblygu strategaethau tair neu bum mlynedd. Ymhellach, mae 63% o'r rhai a gyfwelwyd yn dadlau efallai na fydd angen annog holl weithwyr sefydliad i ddeall y term Economi Sylfaenol. Awgrymodd y cyfweleion fod Economi Sylfaenol yn fwy perthnasol i rai adrannau neu feysydd swyddogaethol nag eraill ac felly byddai rhai yn elwa o ddeall y cysyniad yn llawn ac efallai na fyddai angen dealltwriaeth lawn o Economi Sylfaenol ar eraill i werthfawrogi ei brif elfennau.

Dywedodd hanner y gweithredwyr fod sawl cysyniad a model newydd wedi'u cyflwyno i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwerth

cymdeithasol, datblygu cyfoeth cymunedol, economi sylfaenol, economi gylchol a'r economi llesiant yn ogystal â'r FGA. Awgrymwyd bod y llu o gysyniadau newydd wedi arwain at 'flinder menter' o fewn rhai meysydd o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn enwedig adrannau sydd wedi gorfod gweithredu llawer o egwyddorion y cysyniadau newydd, er enghraifft prynu.

Tabl 5.3: Tabl yn crynhoi data o themâu cyfweiliadau'r gweithredwr

	Themâu cyfweiliad
1	Fframwaith yn ddefnyddiol wrth fapio ymyriadau/rhaglenni sy'n briodol ar gyfer gwahanol grwpiau a chynnwys priodol
2	Blas ar ddysgu yn bwysig i ymarferwyr
3	Mae cynnwys fideo sy'n ennyn diddordeb a chynnwys rhyngweithiol ar y we (sy'n bodoli) yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth (gwybodaeth)
4	Rhaglenni rhyngweithiol (CoPs, ALSs, grwpiau trafod) yn well ar gyfer datblygu dealltwriaeth ymarferwyr
5	T&FGs, gweithgorau a defnyddio strategaeth yn fwy cyffredin
6	Economi Sylfaenol yn cael ei gymhwyso i brynu, datblygu sgiliau ac ymgysylltu â chyflenwyr
7	Nid yw'r term Economi Sylfaenol yn cael ei ddeall yn eang
8	Terminoleg yn bwysig, ei hesbonio mewn Saesneg/Cymraeg clir, yn iaith yr ymarferwr ac alinio â'r strategaeth bresennol
9	A oes angen i bawb o fewn y sefydliad ddeall y term Economi Sylfaenol?
10	Mae toreth o dermau tebyg yn her i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus, os na chânt eu trosi gan strategaeth sefydliadol
11	'Blinder menter' yn broblem, gellid ystyried Economi Sylfaenol fel her ychwanegol
12	Angen cefnogaeth o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr/pwysigrwydd dealltwriaeth strategol a gweithredol

Dywedodd y rhan fwyaf o weithredwyr (75%) ei bod yn bwysig i lefelau strategaeth a gweithredol y sefydliad fod yn ymrwymedig, pan ofynnwyd iddynt am yr her o roi cysyniadau/modelau newydd ar waith. Darparwyd enghreifftiau lle'r oedd ceisiadau strategol i weithredu modelau newydd wedi methu oherwydd nad oedd digon o amser ac adnoddau wedi'u neilltuo i ymgysylltu â staff a gweithredu. Soniodd cyfweleion hefyd y dylai staff gweithredol ddeall gwerth a pherthnasedd cysyniad neu fodel newydd iddynt ymrwymo i'w weithredu. O fewn y thema hon, dywedodd cyfweleion y gall deinameg pŵer o fewn sefydliadau rwystro a digalonni ymdrechion unigolion iau a grwpiau llai pwerus i roi cysyniadau a modelau newydd ar waith. Dywedodd y cyfweleion fod diwylliant sy'n annog 'profi a methu' neu 'amgylchedd methu diogel' yn bwysig er mwyn i fentrau ac ymyriadau ddatblygu prosesau ac arferion newydd yn llwyddiannus. O ran y thema olaf hon dywedodd y cyfweleion fod angen cymorth uwch reolwyr i ddatblygu a chefnogi'r 'diwylliant methu diogel' hwn.

Gofynnwyd i'r gweithredwyr '*Pa offer/dulliau/prosesau fyddai'n annog neu'n galluogi eich sefydliad i ymgysylltu â'r economi sylfaenol?*'. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion wedi'u cynnwys o fewn y themâu a nodir uchod; manylir ar sylwadau a rennir nad oeddent yn ffurfio themâu cyffredinol yma. Roedd gan hanner yr wyth a gyfwelwyd brofiad o'r rhaglen CLES ac roedd eu barn yn gymysg. Ystyriwyd ei fod o werth cyfyngedig gan ei fod wedi datblygu gwybodaeth ymarferwyr o egwyddorion Datblygu Cyfoeth Cymunedol ac eto wedi methu â neilltuo digon o amser i ymarferwyr drafod a gwneud synnwyr er mwyn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen. Roedd gan dri chyfwelai brofiad o raglen y Gronfa Her Economi Sylfaenol a gwnaethant sylwadau ar ei gwerth fel mecanwaith 'profi a dysgu', yn enwedig o'i halinio â chymuned ymarfer a oedd yn galluogi'r ymarferwyr sy'n gweithredu egwyddorion Economi Sylfaenol i rannu dysg.

I grynhoi, roedd y gweithredwyr a gyfwelwyd o'r farn bod egwyddorion Economi Sylfaenol a Datblygu Cyfoeth Cymunedol (a Gwerth Cymdeithasol) yn gysyniadau pwysig ac o werth i'w sefydliadau. Fodd bynnag, gellir crynhoi heriau gweithredu yn driphlyg. Yn gyntaf, mae neilltuo'r amser sydd ei angen i ddeall, gan 'wneud synnwyr' ar y cyd ac yna gweithredu yn her. Yn ail, mae'r adnoddau ariannol yn anodd eu canfod drwy'r cyllidebau gweithredol presennol. Yn drydydd, mae sefydliad yn gofyn am ddiwylliant sy'n gyfforddus â dull profi a dysgu (dysgu o fethiant) o weithredu cysyniadau newydd.

5.3.5 Data cyfweiliadau academyddion

Roedd yr adroddiad yn cyfweid â saith academydd o chwe sefydliad gwahanol (yng Nghymru yn bennaf), gan gynnwys y prif gefnogwr Economi Sylfaenol a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Economiâu Lleol (CLES). Gofynnwyd yr un cwestiwn i'r academyddion â rhanddeiliaid

(gweler Atodiad 3). Mae data'r cyfweiliadau wedi'i grynhoi i'r themâu a amlinellir yn y tabl isod (Tabl 5.4). Bydd yr adran hon yn yr adroddiad yn rhoi manylion y themâu a ganfuwyd o'r data.

Dangoswyd y 'Fframwaith Datblygu Galluogrwydd' i'r rhai a gyfwelwyd (gweler Tabl 5.1) a gofynnwyd am eu barn. Dywedodd yr holl academyddion fod y fframwaith yn ddefnyddiol i ddangos yn glir y gwahanol ddulliau sydd eu hangen i ddatblygu galluoedd ymarferwyr a gwerth gwahanol ymyriadau o ran lefel y datblygiad galluogrwydd sydd ei angen. Awgrymodd yr academyddion fod amlinellu gwahanol grwpiau, o fewn sefydliad, yn ddefnyddiol i sefydliadau ddatblygu dull o ddatblygu galluogrwydd wrth ystyried cysyniadau/modelau newydd. Awgrymodd tri o'r academyddion fod y fframwaith yn debyg i fframweithiau datblygu sefydliadol a fframweithiau cymhwysedd mwy diweddar. Cytunodd yr academyddion y dylai hyd, dwyster a rhyngweithedd ymyriadau gynyddu fel arfer wrth i lefel y galluogrwydd sydd ei angen gynyddu. Roeddent hefyd yn awgrymu nad oedd trosglwyddo theori (cyfnewid gwybodaeth) yn syml ac mae ymchwil eginol diweddar yn awgrymu bod ymyriadau darparu gwybodaeth draddodiadol yn debygol o fod yn llai llwyddiannus nag ymyriadau rhyngweithiol a ysgogir gan her sy'n galluogi ymarferwyr i drafod a gosod cysyniadau yn eu cyd-destun.

Tabl 5.4: Crynodeb o Ddata o Themâu Cyfweiliad Academaidd

	Themâu Cyfweiliad
1	Fframwaith yn ddefnyddiol wrth fapio ymyriadau/rhaglenni sy'n briodol ar gyfer gwahanol grwpiau a chynnwys priodol
2	Rhaglenni rhyngweithiol, cydweithredol ac wedi'u harwain gan her yn fwy effeithiol ar gyfer gweithredu cysyniadau/modelau
3	Mae deall addysgeg yn bwysig wrth gynllunio ymyriadau ar gyfer ymarferwyr
4	Gwasanaethau Cyhoeddus ddim yn homogenaidd
5	Nid oes angen i ymarferwyr ddeall pob agwedd ar ddamcaniaeth/model o reidrwydd
6	Yr her o weithredu cysyniadau/damcaniaethau nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn gan lunwyr polisi
7	Nid yw'r term Economi Sylfaenol yn cael ei ddeall yn eang
8	Dylid cefnogi ymarferwyr i 'wneud synnwyr' ar y cyd
9	Ymrwymiad strategol a gweithredol i weithredu yn bwysig

Arweiniodd cyflwyno'r 'fframwaith datblygu galluogrwydd' i'r gweithredwyr at drafodaeth am wahanol ddulliau a chynnwys datblygu galluogrwydd. Dywedodd saith deg un y cant o'r

academyddion fod dealltwriaeth o addysgeg yn bwysig wrth gynllunio ymyriadau ar gyfer ymarferwyr. Dywedodd yr academyddion y gellir datblygu gwybodaeth ymarferwyr trwy ddulliau pedagogaidd traddodiadol o rannu gwybodaeth (didactig). Fodd bynnag, er mwyn datblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr, dylid defnyddio gwahanol ddulliau pedagogaidd sy'n galluogi ymarferwyr i ymgysylltu â chyfoedion a darparwyr ymyriadau i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth gyd-destunol. Awgrymwyd hefyd bod angen amser a chymorth ar ymarferwyr i gymhwyso dysg wrth ymarfer ac i ddatblygu eu sgiliau cymhwyso theori i ymarfer. Dywedodd yr academyddion fod dulliau pedagogaidd cyfoes fel Setiau Dysgu Gweithredol, hyfforddi cyfoedion (parau a thri), sesiynau trafod rhwng cymheiriaid a grwpiau her o fewn ymyriadau yn ddefnyddiol i ymarferwyr roi cyd-destun a chynllunio sut y gellir cymhwyso cysyniadau neu ddamcaniaethau i'w hymarfer. Awgrymodd yr academyddion fod ymarferwyr yn fwy tebygol o allu gweithredu cysyniadau neu ddamcaniaethau pan fydd ymyriadau wedi'u cynllunio i alluogi datblygu prosesau newydd yn ailadroddol. Felly, mae rhaglenni a ysgogir gan her sy'n defnyddio addysgeg gyfoes o fewn rhaglenni a ysgogir gan her yn galluogi ymarferwyr i roi cysyniadau yn eu cyd-destun a'u cymhwyso'n ailadroddol i 'heriau yn y gweithle' sy'n datblygu sgiliau datblygu prosesau newydd ymarferwyr.

Dywedodd y rhan fwyaf o academyddion (71%) nad yw sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn homogenaidd, gan ddweud bod strwythur y Byrddau Iechyd yn wahanol iawn i Awdurdodau Lleol sy'n dra gwahanol i'r gwasanaethau golau glas. Mae'r llu o sefydliadau llai, gan gynnwys cwangos, yn ei gwneud hi'n anodd iawn awgrymu ei bod yn syml i gynllunio un set o ymyriadau i ddatblygu gallu'r Economi Sylfaenol o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, mae dull sy'n ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli yn bwysig a dylid derbyn y byddai'n cymryd amser ac ewyllys ac ymdrech sylweddol i ddatblygu galluogrwydd Economi Sylfaenol.

Roedd y thema uchod yn gysylltiedig â 57% o'r academyddion yn awgrymu nad oedd angen datblygu galluogrwydd holl ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gweithredu egwyddorion Economi Sylfaenol o fewn Sefydliad Gwasanaethau Cyhoeddus gan nad oes angen i bob grŵp o ymarferwyr ddeall pob agwedd ar ddamcaniaeth / model. Roeddynt o'r farn y dylid cefnogi grwpiau penodol (e.e. prynu, ystadau a rheoli contractau) i ddeall egwyddorion Economi Sylfaenol yn gyntaf. Awgrymwyd hefyd y gellid cefnogi rheolwyr ac arweinwyr o fewn sefydliadau i ddeall egwyddorion Economi Sylfaenol er mwyn rhoi cyd-destun a gweithredu yn eu meysydd priodol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, er mwyn gweithredu newid (prosesau ac arferion newydd) y dylai pob ymarferydd ddeall egwyddorion sylfaenol y newid er mwyn i'r newid gael ei weithredu'n llwyddiannus. I grynhoi, awgrymodd academyddion y gall fod yn fwy effeithiol o ran adnoddau (amser ac arian) i wneud

penderfyniadau strategol am y grwpiau o ymarferwyr a allai ddeall Economi Sylfaenol yn gyflymach ac y gallent eu gweithredu. Dywedodd yr academyddion fod ymgyrchoedd 'codi ymwybyddiaeth' cyffredinol ar draws sefydliadau yn cymryd amser ac arian.

Dywedodd mwyafrif yr academyddion (57%) nad yw llunwyr polisi bob amser yn gwerthfawrogi'n llawn yr her y mae Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei hwynebu wrth weithredu cysyniadau/damcaniaethau newydd. Awgrymodd yr academyddion fod yr heriau yn driphlyg. Yn gyntaf, mae gan Sefydliad Gwasanaethau Cyhoeddus rwymedigaethau statudol sy'n esblygu drwy ddiweddariadau a diwygiadau i feysydd megis safonau amgylcheddol, safonau cymdeithasau proffesiynol, cynllunio ac ati. Yn ail, mae Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael llawer llai o arian dros y degawd diwethaf. Yn drydydd, nifer o rwymedigaethau statudol newydd ar ffurf Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, rhwymedigaethau Sero Net, goblygiadau credyd/budd-daliadau treth gwaith a heriau Brexit yn y degawd diwethaf. Felly, mae eu gallu i weithredu cysyniadau/damcaniaethau ychwanegol newydd yn gyfyngedig.

Dywedodd llawer o academyddion (71%) nad oedd y term Economi Sylfaenol yn cael ei ddeall yn eang o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dywedasant fod rhai adrannau/swyddogaethau (e.e. prynu) yn ymwneud â'r rhaglen Datblygu Cyfoeth Cymunedol a bod ganddynt wybodaeth fanwl am egwyddorion tebyg i Economi Sylfaenol. Awgrymwyd bod rhai awdurdodau lleol wedi ymgysylltu â'r cysyniad a fersiynau cynharach (gwerth cymdeithasol, datblygu cyfoeth cymunedol) yn fwy nag eraill, yn enwedig gyda mentrau prynu'n lleol a phrosiectau ymgysylltu â datblygu cyflenwyr BBaChau. Awgrymodd yr academyddion y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddisgrifio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y tri chysyniad cymharol agos i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus allu 'mapio a sylwi ar fwlch' yn erbyn eu prosesau a'u harferion presennol. Awgrymwyd hefyd y byddai astudiaethau achos sy'n mynegi hanes llwyddiant mentrau fel 'Cronfa Her yr Economi Sylfaenol' yn ddefnyddiol i egluro gwerth Economi Sylfaenol ac i roi syniadau i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut a ble y gellir gweithredu Economi Sylfaenol.

Awgrymodd pedwar o'r saith academydd y byddai mentrau ac ymyriadau a oedd yn cefnogi ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyd-drafod, gosod cyd-destun, deall a datblygu cynlluniau gweithredu Economi Sylfaenol o werth. Mae'r her o orfod 'gwneud mwy gyda llai' y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei hwynebu yn golygu bod dull cydweithredol yn gwneud gwell defnydd o adnoddau gwasanaeth cyhoeddus cyfyngedig. Yn ail, mae angen i ymarferwyr roi cysyniadau cymhleth fel Economi Sylfaenol yn eu cyd-destun cyn y gellir eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Yn drydydd, dywedodd yr academyddion fod gweithredu'r egwyddorion Economi Sylfaenol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os gwneir hynny ar lefel

ranbarthol neu genedlaethol. Felly, mae ymyriadau sy'n dod ag ymarferwyr ynghyd i drosoli arbedion maint, gyda'i gilydd yn 'synhwyriad' ac yn mapio prosesau ac arferion presennol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus.

Dywedodd wyth deg chwech y cant o academyddion fod dealltwriaeth ac ymrwymiad strategol a gweithredol yn bwysig os yw Economi Sylfaenol i gael ei gweithredu'n llwyddiannus. Cynghorwyd ganddynt y dylid gwreiddio egwyddorion Economi Sylfaenol o fewn strategaeth y sefydliad er mwyn ymrwymo adnoddau priodol i'w gweithredu. Dywedasant hefyd ei bod yn ofynnol i ymarferwyr ar y lefel weithredol ddeall egwyddorion Economi Sylfaenol a deall y gwerth y gallai ei roi i gymunedau yng Nghymru iddynt dreulio egni ar ei weithredu. Roeddent yn awgrymu bod cysyniadau/damcaniaethau mentrau yn llawer mwy tebygol o gael eu gweithredu'n llwyddiannus os bydd cefnogaeth i'r cysyniad ar bob lefel.

5.3.6 Crynodeb o ddata cyfweiliadau

Mae data'r cyfweiliad yn dangos bod y fframwaith datblygu galluogrwydd Economi Sylfaenol yn ymddangos yn ddefnyddiol ar gyfer hysbysu'r cynnwys, y deunyddiau a'r adnoddau priodol sydd eu hangen ar gyfer datblygu Academi Economi Sylfaenol. Mae'r fframwaith yn amlinellu nifer o ymyriadau datblygu priodol ar gyfer gwahanol grwpiau yn dibynnu ar lefel y galluogrwydd sydd ei angen. Barnwyd bod y fframwaith yn ddefnyddiol o ran dangos faint o gost ac amser oedd ei angen ar gyfer datblygu galluoedd pellach, gyda chyfweleion yn awgrymu bod angen ymyriadau mwy dwys ar gyfer ymarferwyr sydd angen deall, lledaenu, a gweithredu egwyddorion economi sylfaenol. Awgrymodd canfyddiadau'r cyfweiliad ymhellach fod mentrau'n llawer mwy tebygol o gael eu gweithredu'n llwyddiannus os oes ymrwymiad i'r cysyniad ar bob lefel, gan gadarnhau hyfywedd y fframwaith arfaethedig o ran cynyddu dealltwriaeth sefydliadol ar wahanol lefelau.

Cadarnhaodd y gweithredwyr a'r ymarferwyr fod blas ar ddysgu yn cynnig ffordd fwy priodol o amlinellu egwyddorion economi sylfaenol, gyda chynnwys fideo a gwefan deniadol yn cael eu cynnig fel ffordd effeithiol o ymgysylltu ag ymarferwyr. Datgelodd y cyfweiliadau ymhellach fod y term economi sylfaenol yn cael ei gamddeall yn eang o fewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gyda gweithredwyr ac ymarferwyr yn cadarnhau y dylid cyfathrebu diffiniadau o economi sylfaenol mewn Saesneg/Cymraeg clir gan ddefnyddio terminoleg hygyrch. Cadarnhaodd y gweithredwyr a'r ymarferwyr bod rhaglenni rhyngweithiol a throchi sy'n hwyluso myfyrio gan gymheiriaid a thrafod cysyniadau/modelau yn fwy effeithiol ar gyfer datblygu galluoedd ymarferwyr. Ymhellach, thema gyson drwy'r data cyfweild oedd yr awgrym o flinder mentrau yn y sector cyhoeddus: i fynd i'r afael â hyn, awgrymwyd set o ymyriadau mwy cynnil ac wedi'u targedu i gefnogi ymarferwyr i roi Economi Sylfaenol ar waith.

Dywedodd yr academyddion y gellir datblygu gwybodaeth ymarferwyr trwy ddulliau pedagogaidd traddodiadol o rannu gwybodaeth (didactig). Fodd bynnag, er mwyn datblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr, dylid defnyddio gwahanol ddulliau pedagogaidd sy'n galluogi ymarferwyr i ymgysylltu â chyfoedion a darparwyr ymyriadau i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth gyd-destunol. Dywedodd yr academyddion fod dulliau pedagogaidd cyfoes fel Setiau Dysgu Gweithredol, hyfforddi cyfoedion (parau a thri), sesiynau trafod rhwng cymheiriaid a grwpiau her o fewn ymyriadau yn ddefnyddiol i ymarferwyr roi cyd-destun a chynllunio sut y gellir cymhwyso cysyniadau neu ddamcaniaethau i'w hymarfer. Pwysleisiwyd hefyd fod agwedd sy'n ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng gwahanol fathau o sefydliadau yn bwysig, yn ogystal â derbyn y byddai'n cymryd amser ac ymdrech sylweddol i ddatblygu galluogrwydd Economi Sylfaenol. Cynghorwyd yr academyddion y dylid cefnogi grwpiau penodol (e.e. prynu, ystadau a rheoli contractau) i ddeall egwyddorion Economi Sylfaenol yn gyntaf. Awgrymwyd hefyd y gellid cefnogi rheolwyr ac arweinwyr o fewn sefydliadau i ddeall egwyddorion Economi Sylfaenol er mwyn rhoi cyd-destun a gweithredu yn eu meysydd priodol.

Mewn cytundeb â'r ymarferwyr a'r gweithredwyr, dywedodd llawer o academyddion nad oedd y term Economi Sylfaenol yn cael ei ddeall yn eang o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymodd llawer o academyddion y byddai mentrau ac ymyriadau a oedd yn cefnogi ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyd-drafod, gosod cyd-destun, deall a datblygu cynlluniau gweithredu Economi Sylfaenol o werth. Ymhellach, roedd canlyniadau o gyfweiliadau gyda gweithredwyr, ymarferwyr ac academyddion yn awgrymu bod dealltwriaeth ac ymrwymiad strategol a gweithredol yn bwysig os yw Economi Sylfaenol i gael ei weithredu'n llwyddiannus.

5.4 Rhaglenni a Ysgogir gan Her

5.4.1 Cyflwyniad

Roedd yr adroddiad yn dadansoddi rhaglenni cyfoes wedi'u hysgogi gan her a luniwyd i ddatblygu gallu ymarferwyr i gymhwyso damcaniaeth neu gysyniadau cyfoes i'w gweithleoedd. Roedd yr adroddiad yn edrych ar y rhaglen CLES Datblygu Cyfoeth Cymunedol (a gyflwynwyd i aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), y rhaglen Cymunedau Arloesi Economi Cylchol (CEIC) (a gyflwynir i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe), y rhaglen Infuse (a gyflwynir i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd) a rhaglen LEAD Cymru

(rhaglen datblygu BBACh fwyaf Cymru) fel cymharydd sector preifat. Edrychodd yr adroddiad ar y rhaglenni ffurfiol hyn gan eu bod wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi ymarferwyr i weithredu egwyddorion Economi Sylfaenol neu Economi Gylchol o fewn eu sefydliadau. Llwyddodd rhaglen [LEAD Cymru](#) i gefnogi rheolwyr BBAChau ac arweinwyr BBAChau i roi prosesau ac arferion newydd ar waith er mwyn datblygu eu sefydliad. Datblygodd rhaglen LEAD Cymru 906 o ymarferwyr o 702 o fusnesau a gynyddodd eu trosiant ar gyfartaledd gan 26% a chreu 2540 o swyddi, rhwng 2010-2015.

5.4.2 Cymharu Rhaglenni

Cyflwynwyd y rhaglen CLES i aelodau sefydliadol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru rhwng 2020 a 2021, wedi'i rwystro gan y pandemig. Roedd y rhaglen wyth mis yn cefnogi ymarferwyr trwy daith ddatblygu chwe cham a ddatblygodd eu dealltwriaeth o Ddatblygu Cyfoeth Cymunedol a chefnogi prosiectau gweithredu. Roedd y rhaglen yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu economi ranbarthol gynhwysol sy'n cynyddu llif cyfoeth yn ôl i economïau lleol drwy ddull sy'n seiliedig ar bobl. Amlygir effaith y rhaglen drwy astudiaethau achos ar wefan [CLES](#) ac mae enghreifftiau penodol o Gymru yn cael eu manylu yn Retrofit ac astudiaethau achos datblygu bywyd lleol, ymhlith eraill. Mae rhaglen CEIC yn rhaglen datblygu ymarferwyr 10 mis ffurfiol sy'n creu rhwydweithiau arloesi cydweithredol rhanbarthol (cymunedau ymarfer) ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cefnogi ymarferwyr i gyd-ddylunio atebion i heriau yn y gweithle sydd ganddynt o ran gweithredu egwyddorion yr Economi Gylchol (CE). Mae cyfranogwyr yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau arloesi trwy gymhwyso offer a thechnegau newydd i alluogi eu sefydliad i leihau ôl troed carbon, lleihau costau a gwella lefelau gwasanaeth. Mae rhaglen Infuse ar gael i wasanaethau cyhoeddus ar draws [Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#) a bydd yn cefnogi ymarferwyr i weithio ar heriau bywyd go iawn, o fewn dau faes thematig, sef Cyflymu Datgarboneiddio a Chymunedau Cefnogol. Cyflwynir y rhaglen drwy dri 'Labordy' sydd â ffrydiau gwaith penodol: Y Lab Addasu, y Lab Data a'r Lab Caffael dros gyfnod o ddeunaw wythnos. Datblygodd rhaglen LEAD Cymru sgiliau arwain rheolwyr BBAChau trwy raglen ddatblygu ffurfiol 10 mis, a chafodd ei disodli gan ION Leadership.

Tabl5.5: Crynodeb o'r gymhariaeth o raglenni a ysgogir gan Her

Rhaglenni a Ysgogir gan Her				
Addysgeg	CLES	Infuse	CEIC	LEAD Cymru
Darlithoedd/cyflwyno gwybodaeth	x	x	x	x
Dadansoddiad Astudiaeth Achos	x	x	x	
Setiau Dysgu Gweithredol	x	x	x	x
Siaradwr arbenigol (ymarferwyr a siaradwyr gwadd academaidd)	x	x	x	x
Aseiniadau tîm/grŵp	x	x	x	
hyfforddi cyfoedion (pâr neu dri)	x	x	x	x
Dadansoddi problemau yn y gweithle	x	x	x	x
Ymarferion Myfyrio a Dysgu	x	x	x	x
Chwarae rôl/efelychu	x	x	x	
Ymweliadau Safle (ymweliad her gweithle)	x	x	x	
Arbrofi ar y Cyd (Prototeipio)		x	x	
Mentora wrth gefn gyda Phrif Weithredwyr		x		

Cyfwelodd yr adroddiad â chynrychiolwyr y pedair rhaglen 'a ysgogir gan her' er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol a'u hymagwedd at ddatblygu galluoedd ymarferwyr (addysgeg). Dewiswyd y rhaglenni i'w hadolygu gan eu bod wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag ymarferwyr yng Nghymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddamcaniaethau a chysyniadau i'w gweithredu yn y gweithle. Datblygir yr ymarferwyr er mwyn rhoi prosesau ac arferion newydd ar waith o fewn eu sefydliadau, gyda chymorth cymheiriaid a hwyluswyr rhaglenni, sy'n gwreiddio egwyddorion y ddamcaniaeth a gyflwynwyd. Nid oedd amserlen a chwmpas y prosiect yn caniatáu adolygiad manwl o bob un o'r rhaglenni a'u heffaith. Mae manylion eu heffeithiau wedi'u cynnwys yn eu gwefannau, y dolenni uchod. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu'r rhaglenni her uchod fel enghreifftiau o raglenni a oedd yn ceisio cyflwyno damcaniaethau cyfoes a chefnogi ymarferwyr i'w rhoi ar waith. Mae'r rhaglenni hyn yn annhebyg i raglenni addysgol traddodiadol sy'n anelu'n bennaf at ddatblygu gwybodaeth myfyrwyr ac ymarferwyr. Mae'r rhaglenni a ysgogir gan her, a amlinellir yma, yn anelu'n benodol at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr i ddatblygu a chyflwyno

datrysiadau gwasanaeth newydd sy'n cyflawni nodau damcaniaethau neu gysyniadau newydd.

Mae Tabl 5.5 yn cymharu'r dulliau pedagogaidd a ddefnyddiwyd gan y pedair rhaglen a adolygwyd. Mae'r tabl yn tynnu sylw at ddefnydd o ddulliau pedagogaidd cyfoes niferus sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ymarferwyr i ddeall, trafod, gosod cyd-destun a gallu cymhwysu cysyniadau. Nid yw'r rhaglenni'n gwreiddio dulliau asesu ffurfiol, yn wahanol i gyrsiau traddodiadol, gan eu bod yn canolbwyntio ar ymarferwyr yn cymhwysu'r cysyniadau i'w gweithleoedd trwy ddatblygu prosesau neu arferion newydd. Mae'r hyn a ddysgir o'r rhaglenni yn cael ei fesur yn nhermau allbynnau (atebion gwasanaeth newydd) sy'n rhoi theori ar waith. Mae pob un o'r rhaglenni'n cyflwyno gweithdai neu sesiynau sy'n cynnwys rhai o'r dulliau pedagogaidd a restrir yn y tabl er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn deall ac yn gosod y cynnwys a gyflwynwyd yn ei gyd-destun. Mae'r rhaglenni'n ffafrio gweithdai personol, lle bo'n bosibl, er mwyn hwyluso rhyngweithio â thiworiaid a chyfoedion. Maent yn cyflwyno'r gweithdai mewn sesiynau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn ac yn caniatáu bylchau o wythnos o leiaf a hyd at fis rhwng sesiynau er mwyn rhoi amser a chyfle i ymarferwyr fyfrio a chymhwysu'r hyn a ddysgwyd o bob gweithdy. Mae'r rhaglenni'n trefnu ymarferwyr yn grwpiau, i weithio ar heriau penodol yn y gweithle, er mwyn datblygu atebion i'r heriau ar gyfer gweithredu yn y gweithle. Felly, roedd y rhaglenni arweiniol her yn cynnwys, yn cyflwyno ymarferwyr i theori/cysyniadau a chymhwysu dulliau pedagogaidd cyfoes i gefnogi ymarferwyr i weithredu yn y gweithle.

5.4.3 Ymyriadau a mentrau Economi Sylfaenol

Mae Tabl 5.6 yn amlinellu enghreifftiau presennol o ymyriadau a mentrau gyda chynnwys economi sylfaenol, y cyfeiriwyd atynt yn ystod y cyfweiliadau a'r adolygiad o lenyddiaeth. Mae'r tabl yn darparu dolenni i'r ymyriadau, at ddibenion cyfeirio. Mae tabl gyda dolenni gwefan i ymyriadau enghreifftiol sy'n datblygu gwybodaeth a sgiliau cysyniadau tebyg (nid Economi Sylfaenol yn uniongyrchol) wedi'i gynnwys yn Atodiad 8.

5.4.4 Crynodeb o'r Rhaglen a Ysgogir gan Her

Darparodd yr adran hon adolygiad byr o raglenni a ysgogir gan her a gynlluniwyd i ddatblygu gallu ymarferwyr i roi cysyniadau neu ddamcaniaethau newydd ar waith yn eu gweithle. Canfu'r adroddiad fod rhaglenni cyfoes sy'n cael eu harwain gan her yn gwneud defnydd o fecanweithiau pedagogaidd cyfoes fel dysgu gweithredol, tasgau her grŵp, hyfforddi a mentora cyfoedion ar sail cyfoedion a chyfnodolion myfyriol. Mae'r cynnwys rhyngweithiol yn aml yn cael ei gyflwyno trwy astudiaethau achos a llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr. Mae'r rhaglenni arweinwyr her wedi'u cynllunio i ymarferwyr ddatblygu atebion

neu brosesau newydd i'w rhoi ar waith yn eu sefydliad er mwyn sicrhau allbynnau diriaethol. Yn aml ni chânt eu hasesu neu mae ganddynt elfennau bach, wedi'u hasesu o gymharu â rhaglenni traddodiadol. Mae gweithdai'r rhaglen a ysgogir gan her wedi'u gwasgaru dros ddyddiau neu wythnosau i alluogi ymarferwyr i weithredu'r modelau fframwaith a gyflwynwyd yn eu gweithle rhwng gweithdai, gan alluogi ymarferwyr i gael adborth gan gymheiriaid a myfyrio ar y cynnwys a ddarperir. Yn ei hanfod, mae rhaglenni cyfoes a ysgogir gan her yn rhyngweithiol eu dyluniad, yn cefnogi ymarferwyr i roi theori yn ei chyd-destun a darparu gofod myfyriol ar gyfer gweithredu.

Tabl 5.6: Ymyriadau a Mentrau Economi Sylfaenol

Prosiect Her Gofal Cymdeithasol Gogledd Orllewin Cymru: Wedi edrych ar her recriwtio, cadw a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd Gogledd Cymru. (https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/prosiect-cronfa-her-economi-sylfaenol/)
Prosiect Her Pysgod Cregyn Môn: defnydd o gyfryngau cymdeithasol a dysgu ar y we i 'ailgysylltu' pobl â dewisiadau bwyd da a mwy o farchnadoedd lleol ar gyfer pysgod cregyn.
Prosiect Her Economi Sylfaenol Cyngor Sir Caerfyrddin: 'adnoddau cyfnod cynnar' a chanllawiau i gefnogi gweithredu caffael blaengar
Canolfan Cydweithredol Cymru – pecynnau cymorth Can Do Economi Sylfaenol (https://www.candotoolkits.com/resources) a Can Do Approach (2020) (https://www.candotoolkits.com/can-do-declaration)
Serious about Green: Adroddiad gan Woodknowledge Wales yn dadansoddi 'sut i adeiladu economi coed yng Nghymru'. (https://knowledge.wales/uncategorized/serious-about-green)
Prosiect Her Economi Sylfaenol Tref Rhuthun: defnyddio Neuadd y Dref Rhuthun fel canolbwynt cymunedol a busnes
Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru - Fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymru (https://www.nationalsocialvaluetafocforce.org/national-toms-wales)
Prosiect Her Economi Sylfaenol Llanymddyfri - ymchwil prosiect ar y dechrau - dadansoddiad ystadegol economaidd/cyfweliadau/arolygon/creu CoP (a sefydlwyd gan Gyngol Cymru)
Prosiect Her Caffael Bro Morgannwg : Trafodaethau gyda darparwyr busnesau bach a chanolig a fideos astudiaeth achos o 'arfer gorau wrth gaffael' (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Foundational-Economy.aspx)
Cymuned Ymarfer Cynnal Cymru: CoP wedi'u hwyluso i archwilio sut i dyfu a chefnogi'r economi sylfaenol. Meysydd ffocws - Tai, Gofal Cymdeithasol, Bwyd a Sgiliau'r Dyfodol gydag aelodau o gyrff cyhoeddus, cymdeithasau tai, cynrychiolwyr diwydiant, sefydliadau'r sector gwirfoddol a phreifat. (https://cynnalcyrmru.com/cymuned-y-marfer-yr-economi-sylfaenol/?lang=cy)
Prosiect Cwm Bro Ffestiniog: Cefnogi busnesau cymunedol i weithio gyda thair menter gymdeithasol i ddatblygu cynlluniau mewn twristiaeth gymunedol, ynni adnewyddadwy a chynnwys cyfryngau digidol. (http://www.cwmnibro.cymru/#cy)
Rhaglen CLES Economi Sylfaenol: cefnogi sefydliadau angori mewn pum clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ddatblygu dulliau caffael blaengar

[\(https://cles.org.uk/community-wealth-building-in-practice/community-wealth-building-places/welsh-government/\)](https://cles.org.uk/community-wealth-building-in-practice/community-wealth-building-places/welsh-government/)

6. Casgliadau

Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu mewn byd Anwadal, Ansicr, Cymhleth ac Amwys ac mae'n ofynnol iddynt wneud mwy gyda llai. Bydd gwella eu galluoedd arloesi yn eu helpu i lywio eu rhwymedigaethau cynyddol yn fwy llwyddiannus a chyfrannu at ddatblygiad rhanbarthol. At hynny, bydd gweithredu egwyddorion yr economi sylfaenol a datblygu cyfoeth cymunedol yn galluogi Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi datblygiad rhanbarthol a chenedlaethol (Cymru). Byddai Academi Economi Sylfaenol yng Nghymru yn caniatáu i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus gael mynediad at gynnwys ac ymyriadau cefnogol priodol a allai ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae cael mynediad i ymyriadau Economi Sylfaenol cyfoes, wedi'u hategu gan theori dysgu gymdeithasol ac egwyddorion arloesi agored, yn debygol o hwyluso datblygiad gwybodaeth a sgiliau er mwyn i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus reoli newid a gweithredu cysyniadau newydd yn fwy effeithiol.

Mae'r Economi Sylfaenol yng Nghymru yn tyfu ac mae'n hollbwysig i ddatblygiad rhanbarthol, cyflogaeth, a chyflogadwyedd. Mae'r Economi Sylfaenol yn helpu i ysgogi a chynnal seilwaith materol cyffredinol a gwasanaethau darbodus sy'n allweddol i fywyd bob dydd a'r ardal leol, ac yn galluogi aelwydydd, sefydliadau a chymunedau i weithredu'n fwy effeithiol fel endidau cymdeithasol a seicolegol (Morgan, 2020). Ni ddylid ystyried yr Economi Sylfaenol o ran datblygiad economaidd a chynhyrchiant yn unig ond o ran llesiant, cynhyrchu cyfoeth cymunedol a hunaniaeth gymdeithasol (Heslop et al. 2019; Morgan, 2021; Nygaard a Hansen, 2021; Manley a Whyman, 2021).

Canfu'r adolygiad llenyddiaeth fod ymyriadau dysgu sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr Economi Sylfaenol yn cael effaith gadarnhaol ar yr arfer y mae'r dysgwr wedi'i leoli, ei sefydliad ac yn ei ardal (Howorth et al. 2010). Mae hyn yn awgrymu sylfaen gref i ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol ac mae'n adleisio addysgeg gyfoes sy'n ystyried dysgu fel rhywbeth 'wedi'i leoli' ac wedi'i wreiddio mewn 'cymuned', lle mae dysgu'n amlygu ymhlith a thrwy ymarferwyr eraill (Gherardi et al., 1998; Lave & Wenger, 1991; Wenger, 1998). Yn y bôn, mae angen i fentrau dysgu Economi Sylfaenol yn y dyfodol gydnabod bod gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ymarferwyr mor ddealedig ac anffurfiol ag y maent yn academaidd ac yn ffurfiol. Mae angen i hyn gael ei adlewyrchu'n glir mewn cyfleoedd dysgu gweithredol byr, yn seiliedig ar waith, sy'n ennyn diddordeb ymarferwyr ac yn eu herio i wneud synnwyr. Mae cynnig cymysgedd pwerus o gyfleoedd dysgu wyneb-yn-wyneb, digidol a rhyngweithiol ar y we yn hanfodol, yn ogystal â'r cyfle i gwestiynu a herio'r wybodaeth newydd hon yn rheolaidd mewn Cymuned Ymarfer ymarferwyr sy'n cynnig datblygiad ar eich cyflymder eich hun a dysgu ar y cyd.

Mae'r data sylfaenol a gasglwyd yn awgrymu nad yw'r term economi sylfaenol yn cael ei ddeall yn dda o fewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ychydig o sefydliadau sydd â chynlluniau gweithredu Economi Sylfaenol penodol, sy'n parhau i fod yn gyfle datblygu i ymarferwyr perthnasol mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Felly, gallai Academi Economi Sylfaenol ddod â gwybodaeth ac adnoddau ynghyd mewn un lle i alluogi ymarferwyr i ddatblygu gwybodaeth am egwyddorion ac arferion Economi Sylfaenol. Mae llwyfannau a sefydliadau yn bodoli eisoes sy'n darparu cynnwys dysgu a gwybodaeth i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel Academi Wales. Byddai'n fuddiol i Academi Economi Sylfaenol weithio gydag Academi Wales a darparwyr eraill (SAUau, Cynnal Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru ac ati) i sicrhau nad yw'r Academi Economi Sylfaenol yn dyblygu ymdrech nac yn datblygu brandiau cystadleuol.

Ymhellach, mae'r adroddiad hwn wedi datgelu bod mesurau penodol neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gweithredu Economi Sylfaenol yn brin ac yn amrywio'n fawr, gan ganolbwyntio'n aml ar weithgareddau ymgysylltu fel presenoldeb mewn Cymuned Ymarfer Economi Sylfaenol neu ddigwyddiadau rhwydweithio a rhaglenni allanol ffurfiol a ysgogir gan her. Yn anffodus, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn cael eu mesur yn gadarn o ran eu heffeithiolrwydd o ran gwella galluogrwydd ymarferwyr Economi Sylfaenol ac effaith sefydliadol. Mae hyn yn cynnig rôl arall i Academi Economi Sylfaenol ddatblygu mesurau gallu a fframweithiau i sefydliadau ddangos effaith neu ganlyniadau eu prosesau Economi Sylfaenol.

Nododd yr ymchwiler sylfaenol ymhellach y bydd datblygu sgiliau ymarferwyr, i roi egwyddorion Economi Sylfaenol ar waith, yn fwy effeithiol os caiff ymyriadau eu hategu gan ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol (rhyngweithiol, trochi a chyd-destunol). Gallai Academi Economi Sylfaenol yng Nghymru hyrwyddo'r ymyriadau hyn, a sicrhau eu hansawdd yn gadarn, gydag allbynnau'n cael eu cynnwys fel astudiaethau achos i'w lledaenu.

Cymeradwywyd y Fframwaith Datblygu Galluogrwydd Economi Sylfaenol dangosol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (Tabl 5.1) gan y gweithredwyr, y rhanddeiliaid a'r academyddion a gyfwelwyd. Gallai Academi Economi Sylfaenol ddefnyddio'r fframwaith i fapio a datblygu cynnwys ac ymyriadau priodol, ar gyfer gwahanol grwpiau a chynulleidfaoedd a allai fod angen datblygu gwybodaeth a sgiliau Economi Sylfaenol. Datgelodd data'r cyfweiliadau fod dealltwriaeth ac ymrwymiad strategol a gweithredol yn bwysig os yw Economi Sylfaenol i gael ei gweithredu'n llwyddiannus. Felly, fel y mae'r fframwaith yn ei awgrymu, mae cynnwys addysgiadol ac ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i ymgysylltu â'r grwpiau gwahanol hyn yn bwysig. Darganfu'r ymchwiler ychydig o gynnwys llawn gwybodaeth (adroddiadau a rhaglenni)

ac enghreifftiau gwych o weithredu Economi Sylfaenol yng Nghymru (astudiaethau achos), y gallai'r Academi Economi Sylfaenol eu coladu a'u cyfeirio.

Mae'r data cynradd yn dangos bod gallu arloesi o fewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn heterogenaidd. Er mwyn i Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu egwyddorion cysyniad yn effeithiol, fel Economi Sylfaenol, mae angen lefel galluedd arloesi. Felly, lle bo'n briodol, dylai ymyriadau datblygu Economi Sylfaenol gael eu cynllunio i wella gofynion gallu arloesi ymarferwyr. Roedd y data hefyd yn awgrymu bod angen newid meddylfryd er mwyn deall yr economi sylfaenol yn llawn, o feddylfryd economaidd neoglasurrol traddodiadol i batrwm economaidd adfywiol sy'n gwreiddio egwyddorion [economi llesiant](#) ac [economi gylchol](#).

Mae'r degawd o ddysgu o Fodel Preston (MP) yn awgrymu y bydd gweithredu a datblygu egwyddorion Datblygu Cyfoeth Cymunedol o fewn economi sylfaenol yn llwyddiannus yn gynt os datblygir ecosystem sy'n ymgysylltu ac yn drosoledd gallu a galluogrwydd cyfranogwyr ac asiantaethau rhanbarthol. Mae'r ecosystem yn gofyn am ddull cydweithredol a lluosog sy'n ymgysylltu â sefydliadau angori, Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus, SAUau a SABau, sefydliadau datblygu cydweithredol a sefydliadau llywodraethu rhanbarthol.

Mae mentrau datblygu cyfoeth cymunedol ehangach, yn Preston ac mewn mannau eraill, yn dangos sut y gellir cyflawni nodau Datblygu Cyfoeth Datblygu yn ymwybodol o le a chynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog. Wedi'u hysbysu gan syniadau ecosystem economaidd, mae darparwyr addysg yn ganolog i newid, gan wneud a chynnal diwylliant sy'n cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd Economi Sylfaenol. Mae ecosystem MP, a oedd yn cynnwys pedair her, yn cyflwyno achos cryf dros ymgysylltu mor eang â phosibl â chyfranogwyr rhanbarthol a sefydliadau rhanddeiliaid sydd ag ymrwymiad i egwyddorion Economi Sylfaenol a Datblygu Cyfoeth Cymunedol. Mae cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid i'r eithaf yn cefnogi ymgysylltiad dinesig democrataidd, yn ymwybodol o ac yn gysylltiedig â nodau'r Economi Sylfaenol. Mae profiad Model Preston hefyd yn awgrymu bod ansawdd cyfranogiad rhanddeiliaid yn hollbwysig, gyda 'chefnogaeth' yn hanfodol gysylltiedig ag ymrwymiad affeithiol ac emosiynol i'r gymuned ac ymdeimlad o falchder o le, fel bod cyfranogiad democrataidd yn dod yn ysgogiad deniadol ac yn sbardun ar gyfer newid (Manley ac Aiken, 2020; Prinos a Manley, 2022). Gellid dadlau y gallai ymdeimlad o falchder o le a chymuned, os yw'n berthnasol mewn dinas fel Preston, fod yn berthnasol i falchder rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru.

Yn gysylltiedig â'r angen hwn am ddealltwriaeth fwy cyfannol o botensial yr economi sylfaenol, i bobl a lle yng Nghymru, mae'n amlwg bod cyfleoedd gwirioneddol yn gysylltiedig â thwf arloesedd cymdeithasol ac entrepreneuriaidd. Mae hyn yn cynnig goblygiadau ar gyfer

cyfnewid gwybodaeth lefel uchel ar gyfer datblygu dull o arloesi sy'n seiliedig ar le (Coenen a Morgan, 2021) lle gall hybiau rhanbarthol a nodwyd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, roi blaenoriaeth i adeiladu economi well drwy fuddsoddi mewn 'asiantaeth' talent a chymuned leol fel y gwelwyd mewn prosiectau datblygu cyfoeth cymunedol sydd eisoes yn llwyddiannus yng Nghymru. Bydd ymyriadau datblygu sefydliadol penodol ynghyd â datblygiad academi economi sylfaenol gefnogol yn helpu i flaenoriaethu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol trwy gynyddu gwybodaeth a datblygu sgiliau (Coenen & Morgan, 2021). Mae'r ysgogiad ar gyfer newid o'r fath a datblygu cynaliadwy eisoes wedi'i wreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Green, 2019). Yn ogystal, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod llwyddiannau Economi Sylfaenol hyd yn hyn yn ddieithriad yn gysylltiedig â rhesymeg sy'n seiliedig ar le, sy'n ymateb i botensial cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n ymateb i anghenion lleol ac weithiau rhanbarthol. Maent yn cynnig dulliau arloesol o ddatrys problemau a gallu gwirioneddol a photensial i feithrin gallu (Coenen a Morgan, 2021). Yng Nghymru, mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus ac mae asiantaethau canolbwynt fel Coastal Housing, Trivallis a Severn Wye wedi gweithredu fel 'angorau' gyda'u dull meddwl system gyfan yn seiliedig ar werthoedd i adeiladu mentrau datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau, sydd wedi cyflawni gwelliant cymdeithasol diriaethol a datblygiad rhanbarthol economaidd cynaliadwy (Colegau Cymru, 2020).

Mae arwain y gallu i arloesi a rheoli newid yn hanfodol i holl randdeiliaid yr economi sylfaenol yng Nghymru (Sefydliad Materion Cymreig, 2022). Dylid cyplysu hyn â dechrau prosiect gofalus a thechnegau ymchwil ymchwiliol a all helpu i fodlu prosiectau datblygu Economi Sylfaenol a chynnig y gallu i drosglwyddo i drefi a mentrau addysg bellach cymunedol eraill Cymru (Severn Wye, 2021). Mewn amgylchedd economaidd ansicr, mae'r arweinyddiaeth strategol hyblyg hon a'r ymagwedd seiliedig ar systemau yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant prosiect. Mae'n amlwg bod cymunedau ymarfer (CoPs) wedi dod yn fecanweithiau dysgu a gweithredu pwysig sy'n ysgogi rhwydweithiau arweinyddiaeth wasgaredig (arweiniol). Mae'r Cymunedau Ymarfer llwyddiannus wedi bod yn 'canolbwyntio ar her' ac yn edrych tua'r dyfodol yn eu hagenda'u a'u sgysiau, gan gynnig synhwyro a gwireddu cyfleoedd twf prosiectau go iawn, gan ddangos nodwedd wirioneddol ddatblygol sy'n nodweddiadol o arloesi a datrys problemau mewn sefydliadau cyfoes (Flinn, 2018; Scharmer, 2007; Wenger, 2007). Gallai Cymuned Ymarfer prosiectau Economi Sylfaenol hwyluso dysgu, ystyr a hunaniaeth trwy osod eu agenda a sgysiau myfyriol, sy'n adeiladu 'llais cymunedol' hanfodol o fewn y prosiect. Yn ogystal, mae'r economi ôl-bandemig yn parhau'r galw cynyddol am weithio hybrid a mwy o fynediad i ofod cydweithio mewn hybiau busnes a chymunedol lleol (Amey consulting, 2021) i gefnogi 'lleoliaeth' gwybodaeth a sgiliau. Mae ymateb i'r naratif Economi Sylfaenol

rhanbarthol a lleol cryf hwn mewn agweddau polisi ac ymarfer yn ymyriad 'cam nesaf' hanfodol.

Daw'r casgliadau uchod o'r prif ddata ac adolygiad o'r llenyddiaeth academiaidd ac ymarferwyr ar ddatblygiad a chymhwysiad Economi Sylfaenol. Daw'r adroddiad i'r casgliad y byddai Academi Economi Sylfaenol, sy'n darparu'r gwasanaethau a amlinellwyd uchod, o werth wrth ddatblygu gallu a chwasiti Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus i roi egwyddorion Economi Sylfaenol ar waith. Fodd bynnag, dylid nodi y cynhaliwyd yr astudiaeth hon dros gyfnod byr o amser (12 wythnos) ac felly dylid ystyried y casgliadau y daethpwyd iddynt yn rhai dangosol yn hytrach na rhai terfynol.

7. Argymhellion

Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion (A) i'w hystyried.

A1 Sefydlu Academi Economi Sylfaenol sy'n cefnogi Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSO) i ddatblygu galluogrwydd (cymwyseddau) Economi Sylfaenol. Er mwyn cefnogi Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus, dylai'r Academi Economi Sylfaenol ddatblygu neu gomisiynu:

1. Mapio ac adolygu systematig o'r cynnwys dysgu Economi Sylfaenol sydd ar gael (cyrsgau, cynnwys gwe, astudiaethau achos ac ati) i ddatblygu ystorfa wybodaeth gadarn (cronfa ddata), gan ddefnyddio'r fframwaith Datblygu Galluogrwydd Economi Sylfaenol i strwythuro cynnwys.
2. Cymuned o Ymarfer Rhaglen Economi Sylfaenol (PCoP) peilot a ysgogir gan her ar gyfer Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r PCoP hwn fod yn rhyng-sefydliadol i gefnogi'r 'ecosystem Economi Sylfaenol' eginol o fewn rhanbarth.
3. Cefnogi Cymunedau Ymarfer presennol sy'n rhannu gwybodaeth am Economi Sylfaenol sy'n cael effaith, lle bo'n briodol, a lledaenu eu heffaith.
4. Rhaglen waith ryngweithiol ymgynghorol (digwyddiadau, grwpiau ffocws, cyfweiliadau) sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid, llunwyr polisi, asiantaethau, a sefydliadau angori i bennu'r elfennau sydd ar gael a'r rhai sydd eu hangen (map a bwch) i ddatblygu 'ecosystem Economi Sylfaenol'.
5. Astudiaeth gadarn sy'n adnabod bylchau mewn gallu (cymwyseddau) ar draws Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ymyriadau, ar y cyd â Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus, i lenwi'r bylchau a nodwyd. Dylai'r astudiaeth adolygu effeithiolrwydd ymyriadau Economi Sylfaenol/Datblygu Cyfoeth Cymunedol presennol, gan dynnu ar safbwyntiau ymarferwyr.
6. Digwyddiad(au) agoriadol gyda Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid i drafod cysyniad a rôl Academi Economi Sylfaenol yng Nghymru i gyd-gynhyrchu dulliau o weithredu egwyddorion Economi Sylfaenol.

A2 Llywodraeth Cymru i annog pob Sefydliad Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliad angori i ymgysylltu ag archwiliad Economi Sylfaenol/Datblygu Cyfoeth Cymunedol sy'n cynnwys 'Dadansoddiad o Wariant' caffael i ddarparu sylfaen dystiolaeth o'r cyfoeth ariannol presennol a gedwir o fewn rhanbarthau. (*rhaglen ar y gweill ac felly gellid ei hehangu gyda chyllid cyfyngedig*)

A3 Cynnull rhaglen sy'n cefnogi Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth a naratif ar y cyd o sut y gellir gwreiddio fframweithiau a chysyniadau statudol presennol fel WFGA, Economi Sylfaenol/Datblygu Cyfoeth Cymunedol, CE, Gwerth Cymdeithasol ac Economeg Llesiant yn eu polisïau, eu prosesau a'u harferion.

A4 Sicrhau bod SAUau sydd â darpariaeth addysg alwedigaethol a gweithredol lwyddiannus yn rhan annatod o ddatblygiad yr Academi Economi Sylfaenol, i ddylunio a datblygu ymyriadau cadarn, darparu swyddogaeth SA (gwerthuso ymyriadau Economi Sylfaenol presennol a newydd) a chynnig gofod ffisegol a rhithiol i gynnull trafodaethau datblygu Economi Sylfaenol a hysbysu datblygiad eco-system(au).

A5 Parhau i hyrwyddo datblygiad cydweithredol, fel endidau cyfreithiol ac fel mecanweithiau ar gyfer creu gwerth cymdeithasol yn unol ag egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol. Dylai'r egwyddorion cydweithredol hyrwyddo democratiaeth gyfranogol a systemau llywodraethu ymreolaethol, gan roi asiantaeth a grymuso i gyfranogwyr, rhanddeiliaid a chymunedau lleol.

A6 Cydnabod bod undebau llafur yn rhanddeiliaid pwysig yn nhirwedd Economi Sylfaenol yng Nghymru a gallant gyfrannu at y ddeialog allweddol, luosog sydd ei hangen i ddod o hyd i atebion cydsyniol i ddatblygu eco-system Economi Sylfaenol. Gallai'r ymgysylltiad hwn gael ei hwyluso gan Academi'r Economi Sylfaenol.

8. Cyfeiriadau

Amey Consulting (2021). *Creating Cohesive Communities across the Cardiff Capital Region*, <https://cw-seswm.com/news/creating-cohesive-communities-cardiff-capital-region/>

